# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH,<br>17 MAWRTH, 2026 am 2.00 o'r gloch yp** | **TUESDAY,<br>17 MARCH, 2026 at 2.00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNOGR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THORUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**ELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-
**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor, Sonia Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Derek Owen, Liz Wood

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelod Unigol/Unaffiliated**

Douglas M Fowlie

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Sedd Wag/Vacant Seat - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams -(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2026.

**4 PORTHLADD RHYDD YNYS MÔN - DIWEDDARIAD AR GYNNYDD** (Tudalennau 9 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**5 DIWEDDARIAD AR GRONFEYDD DATBLYGU ECONOMAIDD LLYWODRAETH PRYDAIN** (Tudalennau 19 - 54)

- **Diweddariad ar gyflawni y Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU – 2022/2026**

  Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

- **Cyllid Llywodraeth y DU – Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth**

  Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2025/26** (Tudalennau 55 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**7 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 63 - 64)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni."

**8 MEWNOLI'R GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIAD AR YNYS MÔN** (Tudalennau 65 - 232)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Euryn Morris, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams<br><br>Y Cynghorydd Dyfed W Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (ar gyfer eitem 4)<br><br>**Aelodau Cyfetholedig**<br><br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig),<br>Ms Kathryn Seeney - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd,<br>Ms Christina Williams - Rhiant Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY. |
| **WRTH LAW:** | Y Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a Sicrwydd Ansawdd (SP) (ar gyfer eitem 4),<br>Uwch Reolwr Iechyd, Llesiant a Diogelu (GR) (ar gyfer eitem 4),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu'r Gwasanaeth Pwyllgorau (FT). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Liz Wood<br>Prif Weithredwr |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | **Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion,<br>Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo,<br>Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg,<br>Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd,<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio |

Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Newid Hinsawdd,
Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

Rheolwr Rhaglen - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ST) (ar gyfer eitem 5)

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

**2 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Gwnaeth y Cynghorydd Euryn Morris ddatgan diddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gofnod cywir:-

- Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd, 2025.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26, Tachwedd, 2025, yn amodol ar gynnwys enw'r cynghorydd Sonia Williams i'r rhestr o ymddiheuriadau.

**Camau gweithredu'n codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2025:-**

- **CAM 1** - Data am nifer y galwadau mae'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Ngogledd Orllewin Cymru yn eu derbyn mewn perthynas ag argyfyngau iechyd meddwl.

  Darparwyd data gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru i Aelodau'r Pwyllgor dros neges e-bost cyn y Nadolig.

- **CAM 2 -** Bydd trafodaethau'n digwydd rhwng Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Phrif Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghyd â'r Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd i ailasesu ac ailystyried y cymorth ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub o ran cwympiadau.

  Sicrhawyd fod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cysylltu â Phrif Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bod trafodaethau cychwynnol wedi dechrau. Bydd y mater hefyd yn cael ei godi yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Gwasanaethau Brys ar y Cyd.

- **CAM 3** - Codwyd materion am y mesurau y'u cymerir mewn perthynas â therapi ac asesiadau ar gyfer plant gydag anghenion dysgu ychwanegol ar Ynys Môn, a pha ddarpariaeth sydd ar waith i leihau amseroedd aros.

- **CAM 4 -** Codwyd materion am y gwaith a wnaed gan y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau eraill er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd o cetamin.

  Derbyniodd aelodau'r Pwyllgor fanylion ar ffurf neges e-bost am Gam 3 a 4 uchod.

- Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2025.

**4 DIOGELU CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod diogelu yn gyfrifoldeb i bawb o fewn gwasanaethau'r Cyngor, ac mae gan staff, contractwyr, gwirfoddolwyr ac Aelodau Etholedig rôl i'w chwarae o ran diogelu plant ac oedolion bregus rhag niwed, boed hynny y tu allan neu y tu mewn i'w cartrefi. Dywedodd mai un o'r prif weithredoedd yn dilyn cyfarfod y pwyllgor sgriwtini ym mis Ionawr 2025 oedd adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol a'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau, ac mae'r Cylch Gorchwyl diwygiedig wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Mae'r newidiadau hyn yn cryfhau trefniadau llywodraethu, egluro atebolrwydd ac yn sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu'n cael eu gwreiddio'n gyson o fewn y Cyngor. Mae'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol wedi ehangu ei aelodaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi gwella ymgysylltiad ar draws adrannau ac wedi creu brwdfrydedd wrth yrru cyfrifoldebau diogelu ymlaen ar draws y Cyngor. Dywedodd fod diogelu'n parhau i gael ei adnabod fel y trydydd risg mwyaf i'r Cyngor. Ers cyhoeddi Cyfiawnder trwy ein Dewrder, mae'r Cyngor, a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn arbennig, wedi bod yn gweithio'n agos â Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru er mwyn dangos sut mae'r Awdurdod wedi ymateb i argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant. Archwiliwyd y gwaith hwn yn fanwl mewn trafodaethau yng nghyd gyfarfod y Panel Sgriwtini Addysg a'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol yn craffu ar y broses gaffael sy'n ymwneud â chludo plant i'r ysgol ac oddi yno, fel y nodir yn yr adroddiad, ac mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o waith penodol ehangach i gryfhau prosesau comisiynu diogelu ar draws y Cyngor.

Roedd yr Aelod Portffolio yn croesawu nad oedd rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn gyfeirio unrhyw achosion at Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn ystod y 12 mis diwethaf. Cyfeiriodd at ddatblygiad y gweithlu a hyfforddiant, fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan gyfeirio at feysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r prif flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn y ddod yn cynnwys lansio'r Strategaeth Bwrdd Diogelu Corfforaethol pum mlynedd ym mis Ebrill 2026; cryfhau'r gofynion diogelu ar gontractwyr; parhau i ymgorffori diogelu ar draws yr holl gyfundrefnau; gwella cydweithio ar draws asiantaethau ac ymgysylltiad â'r gymuned; gweithredu newyddlen diogelu chwarterol a datblygu a darparu cynllun cyfathrebu newydd ar ddiogelu. Dywedodd fod y gwaith sydd wedi mynd rhagddo yn ystod y 12 mis diwethaf yn dangos fod cynnydd cryf wedi'i wneud o ran cryfhau trefniadau diogelu o fewn y Cyngor. Bydd y Bwrdd Cyflawni Diogelu Corfforaethol

yn parhau i yrru gwelliannau, sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a hyrwyddo diwylliant lle mae diogelu'n cael ei gydnabod fel cyfrifoldeb i bawb. Bydd y mater o ran cofnodion hyfforddiant ysgolion yn cael ei drosglwyddo i gyfarfod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ym mis Chwefror.

Wrth ystyried yr adroddiad, aeth y Pwyllgor ati i drafod y prif faterion canlynol -

- Gofynnwyd pam bod y ganran ar gyfer staff ysgolion sydd wedi cwblhau hyfforddiant mandadol ar y Gronfa Ddysgu mor isel. Dywedodd yr Uwch Reolwr Iechyd, Llesiant a Diogelwch fod heriau wedi codi yn y gorffennol gyda staff ysgolion yn methu a chael mynediad at Gronfa Ddysgu'r Awdurdod, ond eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant drwy EduCare. Gofynnwyd cwestiynau pellach fod rhai ysgolion wedi defnyddio HWB i gwblhau hyfforddiant, ac mae'n ymddangos fod ysgolion yn defnyddio systemau ar-lein gwahanol i gwblhau hyfforddiant. Dywedodd yr Uwch Reolwr bod modd codi'r mater gyda'r adran TG ac Adnoddau Dynol o ran defnyddio systemau gwahanol at ddibenion hyfforddiant.
- Gofynnwyd pam nad oedd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol Grŵp A erbyn Wythnos Ddiogelu ym mis Tachwedd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod bwriad yn ystod yr Wythnos Ddiogelu i hyrwyddo hyfforddiant, ac nid oedd angen i'r holl staff gwblhau'r hyfforddiant erbyn Tachwedd 2025 gan nad oes gan rai fynediad at gyfrifiadur.
- Gofynnwyd a allai'r Awdurdod gyflwyno polisi sy'n gwahardd y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion fod pryderon ynghylch pobl ifanc yn camddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae'n bwysig fod disgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio'r cyfryngau hyn yn ddiogel ac yn ddoeth. Dywedodd fod Ysgol David Hughes wedi gwahardd y defnydd o ffonau symudol yn yr ysgol, ond roedd barn gymysg am gyflwyno'r polisi hwn yn yr ysgol. Nodwyd mai mater i Gorff Llywodraethu pob ysgol yw a ydynt yn gwahardd y defnydd o ffonau symudol yn eu hysgolion ai peidio. Codwyd materion pellach y dylai'r Awdurdod fod â pholisi ar draws y pum ysgol uwchradd ar yr ynys, yn gwahardd y defnydd o ffonau symudol. Nodwyd y dylid drych ar enghreifftiau o arfer da o ran gwahardd y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion ledled Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn barod i drafod y mater gyda Phenaethiaid yn y pum ysgol uwchradd, ac i edrych ar enghreifftiau o arfer da ledled Cymru.
- Cyfeiriwyd at gyhoeddi adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder a gofynnwyd a yw'r Awdurdod yn hyderus fod mesurau grymus ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw sefyllfaoedd heriol sy'n ymwneud â chyfleoedd a fethwyd, fel sydd wedi digwydd mewn Awdurdod arall. Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod yr adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder wedi'i drafod mewn cyd gyfarfod rhwng y Panel Sgriwtini Addysg a'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar. Dywedodd, fel Aelod Portffolio, ei fod yn hyderus fod y mesurau priodol ar waith yn Ynys Môn i fynd i'r afael â heriau cyffelyb ac ymateb iddynt. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod 23 o argymhellion yn yr adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder, a bod trafodaethau manwl wedi digwydd yn y cyd gyfarfod gyda'r ddau Banel sgriwtini. Nododd fod gan yr Awdurdod hwn fesurau grymus ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw sefyllfa all godi; fodd bynnag, eglurwyd y gallai

sefyllfaoedd o'r natur hon godi ond ei fod yn hyderus fod gan y Awdurdod fesurau ar waith i fynd i'r afael â nhw, a bod disgwyliadau ar waith ar gyfer staff y Cyngor a phartneriaid. Mae perthynas waith glos yn bodoli rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg yn yr Awdurdod hwn ac mewn ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y dylid hysbysu cyrff llywodraethu ysgolion o unrhyw sefyllfaoedd a all godi yn eu hysgolion. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr adroddiad Cyfiawnder trwy ein Dewrder oedd yn amlygu nad oedd Corff Llywodraethu mewn ysgol benodol mewn Awdurdod arall yn ymwybodol nad oedd rhestr o enwa'r rheiny ar y Corff Llywodraethu a'u rolau penodol ar gael ar wefan yr ysgol, ac nad oedd gan Lywodraethwyr reolaeth dros faterion llywodraethu. Gofynnodd y Cadeirydd a yw'r Awdurdod hwn yn hyderus fod Cyrff Llywodraethu ysgolion Ynys Môn yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rolau fel llywodraethwyr ysgol. Dywedodd ei bod yn ymddangos nad oedd enwau a rolau Cyrff Llywodraethu ysgolion Ynys Môn ar gael ar wefannau ysgolion 'chwaith. Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd fod yr holl Aelodau Etholedig yn cael eu cynrychioli ar gyrff llywodraethu ysgolion yn eu wardiau etholiadol. Pwysleisiodd fod hyfforddiant yn rhan bwysig o rôl unrhyw lywodraethwr a'u bod nhw wedi cwblhau'r hyfforddiant a gynigwyd er mwyn cyflawni eu rolau'n effeithiol. Dywedodd yr Uwch Reolwr Iechyd, Llesiant a Diogelu y dylai pob ysgol fod â phoster diogelu yn nodi'r mesurau sydd ar waith a manylion cyswllt unrhyw unigolyn sydd angen cefnogaeth, ynghyd â lluniau o staff ysgol a'r unigolyn dynodedig ar y corff llywodraethu. Cyfeiriodd at gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael a dywedodd y dylai diogelu fod yn eitem ym mhob cyfarfod o'r corff llywodraethu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y byddai'n cymryd cam gweithredu o'r cyfarfod hwn i sicrhau bod ysgolion yn arddangos enwau'r corff llywodraeth a'u rolau dynodedig. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg fod Llywodraeth Cymru yn adolygu rôl cyrff llywodraethu ar hyn o bryd, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr haf, 2026. Dywedodd fod gan y ddwy ysgol ble mae'n Llywodraethwr 'llawlyfr' gyda rhestr o enwau staff ysgol a'r corff llywodraethu.

- Cyfeiriwyd at wythnos PREVENT oedd yn codi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn erbyn radicaleiddio; mae staff a sefydliadau partner wedi cael cyfle i gwblhau hyfforddiant. Gofynnwyd a ystyriwyd rhoi hyfforddiant o'r fath i ddisgyblion ysgolion uwchradd, ac a oed athro dynodedig ym mhob un o'r ysgolion uwchradd i fod yn Swyddog PREVENT. Dywedodd y Rheolwr Diogelu a Sicrhau Ansawdd fod trafodaethau rhanbarthol yn digwydd ar hyn o bryd fydd yn galluogi pobl ifanc i fod yn rhan o hyfforddiant sy'n ymwneud â radicaleiddio. Dywedodd fod 'Shout Out UK' wedi cynnal gweithdai yn amlygu diogelu yn erbyn radicaleiddio. Dywedodd yr Uwch Reolwr Iechyd, Llesiant a Diogelu fod Swyddog Diogelu dynodedig wedi ei penodi, ac mae'n arwain ar PREVENT o fewn ysgolion hefyd.
- Gofynnwyd a fydd rhaid i bob contractwr sy'n ymgymryd â gwaith gyda'r Awdurdod gwblhau hyfforddiant diogelu. Nodwyd bod llawer o weithwyr yn hunangyflogedig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y bydd diogelu yn cael ei gynnwys ym mhob contract a ddyfernir gan y Cyngor, a bydd brawddeg yn y contract yn amlygu os ydynt yn gweld unrhyw faterion y dylent wybod pwy i gysylltu ag o er mwyn adrodd y digwyddiad. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi unrhyw un sydd eisiau cwblhau hyfforddiant diogelu.

- Gofynnwyd pa hyfforddiant a chanllawiau sy'n cael eu rhoi i Gartrefi Preswyl a Gofal o ran diogelu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod canllawiau yn rymus, a bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn sicrhau bod diogelu'n bwysig o unigolion o fewn y sector gofal.
- Gofynnwyd am y gofyniad ar gyfer Trwyddedu Hacni/tacsis mewn perthynas â Diogelu a gwiriadau DBS. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a Sicrhau Ansawdd fod y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn disgwyl i weithredwyr Trwyddedau Hacni gwblhau gwiriadau DBS yn gyntaf, ac yna cwblhau hyfforddiant diogelu cyn bo modd cyflwyno trwyddedau Hacni.

**Ar ôl archwilio'r wybodaeth a gyflwynwyd ac adolygu'r datblygiadau dros y 12 mis nesaf, PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau Diogelu Corfforaethol yn llawn.**

## 5 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol 2024/2025, oedd yn ymgorffori trefniadau llywodraethu/craffu er mwyn darparu'r Cynllun Llesiant, i'w Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyrraedd y drydedd flwyddyn o'r Cynllun Llesiant 5 mlynedd, ac mae mwyafrif yr amcanion un ai wedi'u cwblhau, neu mae cynllun gweithredu ar waith gydag amserlen arfaethedig ar gyfer eu cwblhau.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fod y Bwrdd wedi datblygu dros y blynyddoedd, ac mae cyfarfodydd yn canolbwyntio mwy ar wneud penderfyniadau a blaenoriaethu gwaith yn hytrach na bod yn fforwm rhannu gwybodaeth, ac mae gan y Bwrdd safbwynt gweithredol gyda sawl enghraifft o bartneriaid yn cydweithio, yn rhannu arfer da, yn dysgu gweri ac yn symud ymlaen gyda'i gilydd. Sefydlwyd Is-grwpiau gyda Swyddogion yn cydweithio, ac mae hynny wedi ei adnabod fel arfer da ledled Cymru. Cynhaliwyd gweithdy Gwybodus o Drawma ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd, a gafodd ei ddarparu gan arbenigwyr yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Is-grŵp Iaith wedi cwblhau'r Prosiect Arferion Recriwtio Da, ac mae'n gweithio gyda phartneriaid ar y 'Prosiect Chwalu Mythau am Weithio'n Gymraeg' fydd yn cael ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn fis Mai. Mae Comisiynydd Plant Cymru, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi cynnig peilota sesiynau penodol ar gyfer partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am Siarter Hawliau Plant y Cenhedloedd Unedig. Dyma gyfle unigryw i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn arwain y ffordd yn ngogledd Cymru, ar y cyd â Chomisiynydd Plant Cymru, er mwyn cynnig y gweithdy hwn.

Wrth ystyried yr adroddiad, aeth y Pwyllgor ati i drafod y prif faterion canlynol -

- Cyfeiriwyd at ymgysylltiad y Byrddau gyda 'Llais y Dysgwr' a chafwyd trafodaethau gyda Choleg Llandrillo Menai a Choleg Meirion Dwyfor mewn perthynas â materion cludiant i fyfyrwyr allu mynychu'r colegau hyn. Gofynnwyd sut mae'r Bwrdd yn delio gyda'r mater hwn, ac a fydd yn berthnasol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen - Bwrdd Gwasanaethau

Cyhoeddus Gwynedd a Môn fod y mater wedi ei godi yn ystod cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fis Medi 2025, ac roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw. Nododd fod y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru wedi herio'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed, a sut fydd eu lleisiau yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith fydd y Bwrdd yn ei gwblhau. Bu i Goleg Llandrillo Menai wahodd cynrychiolwyr o'r Bwrdd i siarad gyda myfyrwyr yn y Coleg. Aeth ymlaen i ddweud y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar faterion cludiant, a bydd yn adrodd yn ôl i Bwrdd yn fuan. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer ei fod yn bwysig fod aelodau'r Bwrdd yn cael gwybodaeth am yr herio mae myfyrwyr Coleg Llandrillo Menai yn eu hwynebu gyda llwybrau bws a chysylltiadau cludiant. Dywedodd fod y ddolen at rybuddion o dywydd garw wedi ei rhannu gyda'r coleg er mwyn eu galluogi i gynllunio ar gyfer cludo myfyrwyr yn ddiogel. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr un problemau'n berthnasol i ddisgwylion ysgolion uwchradd, gyda rhai yn gorfod croesi'r ddwy bont i gyrraedd a gadael yr ysgol.

- Cyfeiriwyd at Brosiect Niwbwrch, sy'n enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion trafnidiaeth yn yr ardal. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn fod hwn yn brosiect peilot ac mai'r bwriad yw datblygu model o arfer da y gellir ei ddefnyddio wrth weithio mewn partneriaeth, er mwyn ymateb i faterion traffig.
- Mynegwyd pryderon hefyd bod yr amcan lliniaru tlodi wedi llithro i haf 2026. Gofynnwyd beth oedd y rhesymau am y llithriad gyda'r amcan lliniaru prosiect gan y fod yr argyfwng costau byw dal yn bodoli, a beth yw bwriad y Bwrdd ar gyfer haf 2026. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod Aelodau'r Bwrdd wedi dweud, ers y cychwyn, eu bod eisiau archwilio'r rhesymau dros dlodi mewn cymunedau lleol ac nid i dderbyn data yn unig, fel sy'n digwydd gydag amcanion eraill mae'r Bwrdd yn eu gosod. Dywedodd fod sesiwn brawf wedi ei chynnal gyda Sefydliad Bevan, ond roedd yn amlwg mai ymarferiad yn canolbwyntio ar ddata ydoedd. Mae'r sefydliadau partner o fewn y Bwrdd yn cydnabod eu rôl i liniaru tlodi ac mae gwaith wedi digwydd gyda Swyddogion yn y ddau awdurdod lleol sy'n gweithio ar dlodi, ac maent wedi adnabod codau post lle mae diffyg yn nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynllun talebau dechrau'n deg. Dywedodd fod cyfeirio pobl i dderbyn cefnogaeth yn bwysig, ac mae Medrwn Môn, Mantell Gwynedd, Cyngor ar Bopeth, ADRA a Barnardos wedi cynnig cymorth i weithio ar liniaru tlodi. Mae Prifysgol Bangor hefyd wedi gwneud gwaith i adnabod meysydd o dlodi yng Ngwynedd a Môn.
- Cyfeiriwyd at y Prosiect Arferion Recriwtio Da a gweithio mewn partneriaeth ar y 'Prosiect Chwalu Mythau am Weithio'n Gymraeg' fydd yn cael ei lansio yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn fis Mai. Gofynnwyd cwestiynau am ddisgwyliadau'r prosiect ar ôl ei lansion yn yr Eisteddfod yr Urdd fis Mai, a phwy fydd yn elwa o'r prosiect ar ôl hynny. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod trafodaethau'n digwydd gyda sefydliadau partner o fewn y Bwrdd mewn perthynas â materion recriwtio. Y pryderon mwyaf oedd nad oedd pobl yn gallu dilyn gyrfa yn y sector cyhoeddus yng Ngwynedd ac Môn os nad oeddynt yn siarad Cymraeg, neu os oeddynt o'r farn nad oedd sgiliau siarad Cymraeg yn cyrraedd y safon ofynnol. Mae'r Bwrdd wedi comisiynu sefydliadau TYLWYTH i helpu i liniaru problemau a materion mae dysgwyr Cymraeg yn eu hwynebu. Dywedodd y Pennaeth Democrataidd fod casgliadau'r prosiect wedi'u cynnwys yn y canllawiau i Reolwyr yn ystod y broses recriwtio.

- **PENDERFYNWYD nodi trefniadau llywodraethiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Llesiant ar gyfer 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.**

**6 BLAEN RAGLEN WAITH 2025/2026**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Sgriwtini, oedd yn gosod allan Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2025/2026, i'r Pwyllgor ei ystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2025/26;**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Raglen Waith.**

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**Cadeirydd**

22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 17 Mawrth 2026 |
| **Pwnc:** | Cyflwyno diweddariad ar gynnydd diweddar mewn perthynas â sefydlu Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol a fydd yn cyflwyno'r adroddiad?

| Aelod Portffolio | Rôl |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gary Pritchard | Aelod Portffolio Datblygu Economaidd |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Tudur H. Jones | Prif Swyddog - Datblygu Economaidd |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar gynnydd a datblygiad Porthladd Rhydd Ynys Môn.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☐ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:

1. Cydnabod rôl y Cyngor o ran datblygu Porthladd Rhydd Ynys Môn, gan gynnwys cyflwyno'r Achosion Busnes Amlinellol a Llawn.
2. Cydnabod cadernid y trefniadau llywodraethu a throsglwyddo o'r Bwrdd Cysgodol i'r Bwrdd Llawn
3. Nodi'r camau nesaf o ran sefydlu a chadarnhau'r Porthladd Rhydd.

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Datblygwyd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn unol â gweledigaeth, amcanion a gwerthoedd Cynllun y Cyngor 2023-2028. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar gydweithio, yr iaith Gymraeg, hyrwyddo'r ynys a hyrwyddo cyfleoedd fydd yn creu swyddi ac yn tyfu'r economi. Mae amcanion y Porthladd Rhydd yn cyd-fynd yn agos ag amcanion Cynllun y Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Cydweithio gyda rhanddeiliaid
2. Amcanion corfforaethol
3. Y Camau Nesaf

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**a) Cyflwyniad i Borthladdoedd Rhydd**

Ardaloedd dynodedig yw Porthladdoedd Rhydd lle mae nifer o gymhellion economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Ar ddiwedd 2022, gwahoddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymgeiswyr i gyflwyno cynigion am Borthladdoedd Rhydd.

Mae'r Porthladd Rhydd yn gyfle i ddenu buddsoddiad newydd sylweddol gan y sector preifat ar Ynys Môn, rhywbeth sy'n hynod o bwysig o ystyried y cyd-destun, sef bod yr ynys wedi colli nifer sylweddol o swyddi yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf. Mae Porthladdoedd Rhydd yn cynnig cymhellion ac yn llacio rheolau'n gysylltiedig â threth, tollau, trethi busnes, arloesi a chefnogaeth yn gysylltiedig â masnach a buddsoddi. Ni fydd nwyddau sy'n dod i mewn i'r Porthladd Rhydd yn ddarostyngedig i gyfundrefn drethi a thollau arferol y DU.

Roedd cryfder a llwyddiant y cais yn seiliedig ar ddyfnder y berthynas sy'n bodoli rhwng y Cyngor a Stena ers 30 mlynedd, a bydd yn cryfhau'r berthynas ymhellach a datblygu ffordd newydd o gydweithio rhwng y ddau sefydliad.

**b) Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Gweledigaeth Porthladd Rhydd Ynys Môn yw datblygu i fod yn hwb ar gyfer arloesi, ynni carbon isel a masnach ryngwladol.

Mae gan y Porthladd Rhydd dri Amcan, sef:

- Hybu gweithgarwch economaidd, lefelau sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth, gan greu mwy o gyfleoedd i bobl leol.
- Lleihau nifer y bobl sy'n teithio oddi ar yr ynys i weithio a nifer y bobl sy'n mudo o'r ardal, er mwyn gwarchod a chryfhau'r iaith Gymraeg.
- Meithrin arloesi, gwella masnach a'n mantais gystadleuol mewn sectorau allweddol.

Er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion, mae cais Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:


1. Denu mewnfuddsoddiad a chynyddu gweithgarwch economaidd
2. Gyrru arloesi trwy ein holl weithgareddau Porthladd rhydd

3. Adeiladu ar y Rhaglen Ynys Ynni a bod yn arweinydd byd-eang mewn perthynas â chynhyrchu ynni carbon isel
4. Hybu Masnach Ryngwladol
5. Gwella Sgiliau a Chyfleoedd lleol
6. Cynyddu Cynhyrchiant
7. Gwarchod a chryfhau'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig
8. Cyfrannu at sero net a datgarboneiddio
9. Darparu amodau gweithio teg a gwarchod ansawdd yr amgylchedd

Amcangyfrifir y gallai 4,900 o swyddi ychwanegol gael eu creu o fewn y Porthladd Rhydd, ac y gallai gefnogi swyddi anuniongyrchol eraill ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Mae'r safleoedd canlynol wedi'u cynnwys yn y Porthladd Rhydd, naill ai fel safleoedd treth neu safleoedd tollau:

1. Parc Ffyniant (230 acer) (hen safle Alwminiwm Môn) - mae'r tir yn eiddo i Anglesey Land Holdings. Derbyniwyd y caniatâd cynllunio oedd yn angenrheidiol ym mis Medi 2025.
2. Tir Parc Cybi (203 acer) - mae'r tir yn eiddo i Lywodraeth Cymru, Conygar a Land & Lakes
3. Tir M-SParc (49 acer) - mae'r tir yn eiddo i Brifysgol Bangor a'r Cyngor
4. Safleoedd Bryn Cefni (32 acer) - mae Tregarnedd, safle Peboc a hen safle 2Sisters yn eiddo i'r Cyngor ac Anglesey Land Holdings
5. Rhosgoch (203 acer) - mae'n eiddo i Anglesey Land Holdings
6. Safle Octel (61 acer) - mae'n eiddo i Carbon3.ai




**c) Penderfyniad ar y Porthladd Rhydd a Datblygu Achosion Busnes**

Fe wnaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (ABLl) ym mis Gorffennaf 2025, a chafodd y gymeradwyaeth ei chadarnhau mewn cyhoeddiad cyhoeddus fel rhan o'r Gyllideb (Tachwedd 2025).

Mae hyn yn dilyn cyfnod hir o weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i lunio Achos Busnes Amlinellol (ABA) a'r Achos Busnes Llawn. Cyflwynwyd yr ABA yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2023 a derbyniwyd adborth ffurfiol gan y ddwy Lywodraeth ym mis Ionawr 2024. Rhoddwyd sylw i'r gweithredoedd a godwyd yn yr adborth cyn dechrau paratoi'r Achos Busnes Llawn (ABLl). Fodd bynnag, cyhoeddwyd y byddai Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2024, gan achosi oedi annisgwyl. Cymeradwywyd yr ABA yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2024, yn dilyn ethol llywodraeth newydd ac roedd hyn yn llwyddiant ac yn garreg filltir arwyddocaol yn y broses. Cyflwynwyd yr ABLl ym mis Ionawr 2025. Dim ond dwy "Weithred Allweddol" i roi sylw iddynt oedd wedi'u cynnwys yn yr adborth anffurfiol a dderbyniwyd gan y ddwy Lywodraeth ym mis Mawrth 2025. Cwblhawyd y gweithredoedd hyn gan olygu fod modd cymeradwyo'r ABLl ym mis Gorffennaf 2025.

**d) Dynodi Safleoedd Treth**

Roedd sicrhau fod safleoedd treth yn cael eu dynodi yn garreg filltir arwyddocaol ac mae'n golygu fod y safleoedd yn cael eu cydnabod o dan y gyfraith fel ardaloedd daearyddol lle gall busnesau fanteisio ar ryddhad treth er mwyn denu buddsoddiad, masnach a swyddi i adfywio ardaloedd ledled y sir lle mae'r angen mwyaf.

Dynodwyd y safleoedd treth Canol Môn (lleoliadau MSParc a Llangefni) a Pharth Ffyniant Môn (Caergybi) yn llwyddiannus ac maent yn weithredol ers 23 Ionawr 2025.

Derbyniodd Safle Treth Gogledd Môn (gan gynnwys Octel a Rhosgoch) y dynodiad ar 21 Tachwedd 2025.

**e) Rôl y Cyngor Sir o ran Gwireddu'r Porthladd Rhydd (Corff Atebol)**

Mae'n rhaid i'r Cyngor weithredu fel Corff Atebol ar gyfer y Porthladd Rhydd. Mae hyn felly'n rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r Cyngor, ond mae'n golygu hefyd fod ganddo fwy o ddylanwad a rheolaeth o ran cyflawni'r rhaglen, yn enwedig mewn perthynas â'i gyfrifoldebau statudol.

Gan mai'r Cyngor Sir fydd yn gweinyddu'r arian (sef arian grant sy'n cynnwys £1m o gyllid refeniw a £25m o arian cyfalaf sbarduno), byddwn - fel Corff Atebol - yn llwyr gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth lawn â rheolau prynu'r sector cyhoeddus wrth wario'r arian, yn ogystal â monitro ac adrodd ar yr holl wariant cysylltiedig. Bydd y Cyngor (trwy'r Swyddog Adran 151) yn sicrhau fod yr Achosion Busnes sy'n ymgeisio am yr arian sbarduno gwerth £25m yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rheoli cymorthdaliadau, gwerth am arian a rheolau caffael, a'u bod yn gallu dangos bod angen arian cyhoeddus arnynt.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor wrthi'n gwneud gwaith datblygu prosiect ar hen safle Peboc yn Llangefni, er mwyn manteisio ar yr arian sbarduno i gaffel, dymchwel ac adfer y safle.

Mae Prifysgol Bangor wrthi'n paratoi achos busnes hefyd ar gyfer yr Adeilad Egni yn M-SParc. Bwriedir defnyddio arian sbarduno law yn llaw â chyllid arall (gan gynnwys cyllid Bargen Dwf Gogledd Cymru) ar gyfer gwariant cyfalaf ar y gwaith adeiladu.

Bydd y Porthladd Rhydd hefyd yn cadw trethi busnes, am 25 mlynedd, gan fusnesau cymwys sy'n meddiannu safleoedd ar y safleoedd treth dynodedig. Bydd yr arian a gynhyrchir yn dibynnu ar faint o adeiladau busnes fydd yn cael eu meddiannu, a pha fath o fusnesau ydynt, ond gallai fod cymaint â nifer o filiynau o bunnoedd. Gellir gwario'r arian hwn ar weithgareddau amrywiol sy'n cyflawni amcanion y Porthladd Rhydd, gan gynnwys ei weithrediadau ei hun a gwariant cyfalaf.

Fel Corff Atebol, felly, bydd y Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

1. Derbyn arian ar ran y Porthladd Rhydd a bod yn gyfrifol am ei weinyddu'n briodol
2. Cymeradwyo cyllideb weithredol flynyddol y Porthladd Rhydd
3. Sefydlu a chynnal system ariannol i gofnodi'r holl arian sy'n cael ei dderbyn a'i wario ar ran y Porthladd Rhydd
4. Ymgorffori trefniadau llywodraethu da wrth wneud penderfyniadau, gan ddilyn egwyddorion Nolan
5. Adolygu a chymeradwyo achosion busnes ar gyfer prosiectau i'w cyllido gan arian cyfalaf sbarduno a phrosiectau'n gysylltiedig â threthi busnes a gedwir
6. Penderfynu pa fusnesau sy'n gymwys i dderbyn rhyddhad trethi busnes
7. Sicrhau fod penderfyniadau a gweithgareddau'r Porthladd Rhydd yn dryloyw, eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnig gwerth am arian
8. Cadw'r wybodaeth angenrheidiol a sicrhau fod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ynglŷn â gwariant, gweithgareddau a chanlyniadau'n cael ei monitro, ei chofnodi a'i hadrodd yn briodol.
9. Gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer y Llywodraeth mewn perthynas â phob mater yn ymwneud â'r Awdurdod Arweiniol/Corff Atebol yn gysylltiedig â'r Porthladd Rhydd
10. Cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer monitro ac arfarnu (megis casglu a darparu data mewn perthynas â swyddi newydd, busnesau a grëwyd, sgiliau a buddsoddiad, yn ogystal â buddsoddiad preifat a ddenwyd) ayb.

**f) Porthladd Rhydd Ynys Môn - y Cwmni a'r Bwrdd**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r cwmni cyflawni yn llwyddiannus, sef cwmni cyfyngedig trwy warant - Porthladd Rhydd Ynys Môn - yn ogystal â'r Bwrdd Cysgodol er mwyn darparu'r strwythurau llywodraethu a throsolwg sy'n ofynnol gan y ddwy Lywodraeth.

Er mai'r Cyngor yw unig aelod y Cwmni ar hyn o bryd, bydd yr aelodaeth yn cael ei ymestyn i gynnwys tirfeddianwyr a rhanddeiliaid allweddol, sef Prifysgol Bangor, Menter Môn a Grŵp Llandrillo Menai.

Ni fydd Stena na Chyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru'n aelodau o'r cwmni, ond bydd ganddynt sedd ar Fwrdd y Porthladd Rhydd. Bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd fel 'sylwedyddion'

Mae gan y Cwmni Gytundeb Aelodau drafft a gymeradwywyd gan y rheiny fydd yn aelodau yn y dyfodol, a byddant yn ei lofnodi a'i fabwysiadu (ynghyd ag Erthyglau cyfatebol) pan fyddant yn ymuno a phan fydd y Cwmni'n llwyr weithredol.

Mae polisïau allweddol y Cwmni (adnoddau dynol, caffael, recriwtio ac ati) yn cyd-fynd â pholisïau'r Cyngor, ond maent wedi cael eu haddasu i adlewyrchu gofynion Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Porthladd Rhydd. Bydd Porthladd Rhydd Ynys Môn yn endid/gwmni ar wahân fydd yn gyfrifol wireddu a gweithredu'r Porthladd Rhydd, felly mae rhyddid ganddo i fabwysiadu polisïau sy'n wahanol i rai'r Cyngor.

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd o'r Bwrdd Cysgodol cyn trosglwyddo i'r Bwrdd Llawn (bydd hynny'n digwydd ar ôl i'r Cyngor a'r ddwy Lywodraeth lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth) ac, yn dilyn hynny, bydd y cyllid cyfalaf, sef £25m o gyllid sbarduno, yn cael ei ryddhau.

Ar ôl llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd y Cyngor hefyd yn cynnal proses recriwtio ar gyfer y cwmni ac, wrth i'r cwmni dyfu a'r gwaith o gyflawni amcanion y Porthladd Rhydd ddwysau, rhagwelir y bydd yn ehangu i gynnwys swyddogaethau'n gysylltiedig ag Arloesi, Sgiliau a Marchnata.

**g) Y Camau Nesaf ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn**

Wrth i'r pwyslais symud o ddatblygu i gam cyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd, bydd nifer o weithgareddau blaenoriaeth yn mynd rhagddynt yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf:

**Llywodraethu:**

1. Llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ffurfiol gyda'r ddwy Lywodraeth a symud o'r cam datblygu i'r cam cyflawni.
2. Rhoi'r strwythurau llywodraethu ar waith er mwyn datgloi a gwario'r dyraniad o £25m o arian sbarduno.
3. Sefydlu strwythurau gweithredol ffurfiol, gan gynnwys cyllidebau, strategaethau gweithredu (sgiliau, arloesi, sero net ayb), polisïau AD a pholisïau eraill ac ati.

**Recriwtio:**

4. Recriwtio i'r swyddi angenrheidiol er mwyn rhoi sicrwydd i'r ddwy Lywodraeth wrth i ni symud ymlaen i gam cyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd.

**Datblygu Safleoedd Treth**

5. Parhau i gefnogi ein rhanddeiliaid wrth iddynt barhau i ddatblygu'r safleoedd treth ledled yr Ynys, yn barod ar gyfer cyfleoedd buddsoddi a chreu swyddi.
6. Parhau i wneud yr holl waith angenrheidiol cyn datblygu hen safle Peboc yn Llangefni.

**h) Risgiau'n gysylltiedig â Phorthladd Rhydd Ynys Môn**

Mae risgiau'n gysylltiedig â datblygu rhaglen hynod gymhleth a newydd a gellir crynhoi'r prif risgiau a nodwyd fel a ganlyn:

1. Rheoli risgiau; rheoli rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau.
2. Rheoli, dyrannu a chydymffurfio â rheolau mewn perthynas â'r arian sbarduno gwerth £25m.
3. Adnoddau a chapasiti o fewn y Cyngor i barhau i chwarae rôl holl bwysig o fewn y Porthladd Rhydd wrth gystadlu â blaenoriaethau eraill.
4. Gwarchod rhwymedigaethau statudol y Cyngor.
5. Yr angen am lywodraethu cadarn, a rôl hirdymor y Cyngor a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen Porthladd Rhydd yn effeithiol a chan gydymffurfio â gofynion.
6. Effaith bosib y Porthladd Rhydd ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.
7. Bod y Cyngor - a phartneriaid - yn methu â manteisio'n llawn ar y cyfle sy'n cael ei gyflwyno trwy sicrhau statws Porthladd Rhydd Ynys Môn.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Dim - mae'r Porthladd Rhydd wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae'r ddwy Lywodraeth wedi ei gymeradwyo.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn dod i'r casgliad mai'r effeithiau sylweddol mwyaf tebygol ar gydraddoldeb yw'r rhai sy'n deillio o greu mwy o swyddi, a gallai hynny olygu fod mwy o bobl ifanc yn aros yn yr ardal, ac y byddai hynny'n cryfhau'r Gymraeg yn lleol a lleihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Pan fydd dyluniadau manwl a chynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu ar gyfer elfennau unigol, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn argymell y dylid canolbwyntio'n benodol ar sicrhau fod effeithiau amwynder sy'n effeithio ar breswylwyr a chyfleusterau cymunedol yn cael eu lliniaru, er mwyn lleihau neu osgoi unrhyw effeithiau posib ar gydraddoldeb. Bydd y broses gynllunio ar gyfer pob cynnig unigol yn sicrhau fod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i'r effeithiau.

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Cadarnhaol - gallai'r Porthladd Rhydd greu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol ym mhob sector, gan gynnwys swyddi lefel mynediad.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Cadarnhaol - bydd y Porthladd Rhydd yn sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg trwy ddarparu polisïau |

7.4. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Cadarnhaol - mae’r Porthladd Rhydd wedi llunio cynllun Sero Net trwyadl ac mae’r ddwy Lywodraeth wedi ei gymeradwyo |

## 8. Goblygiadau Ariannol

| |
|---|
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i’r Cyngor Sir gan fod grant gan y ddwy Lywodraeth wedi talu’r costau datblygu. |

## 9. Atodiadau

| |
|---|
| |

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Ebrill 2025 - Adroddiad Diweddaru i’r Pwyllgor Sgriwtini Porthladd Rhydd |

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 17 Mawrth 2026 |
| **Pwnc:** | Darparu diweddariad ar gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn (2022-2026) |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Dylan Rees |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio / swyddog arweiniol a fydd yn cyflwyno'r adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gary Pritchard | Aelod Portffolio Datblygu Economaidd |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Tudur H. Jones | Prif Swyddog - Datblygu Economaidd |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Darparu diweddariad ar gyflawni Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

☐ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☒ Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:

1. Nodi cyflawniad llwyddiannus Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn a'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd rhwng 2022 a 2026
2. Nodi bod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar Ynys Môn wedi'i gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth y DU
3. Cydnabod rôl barhaus y Cyngor o ran rheoli'r cyllid ar yr Ynys, yn ogystal â chefnogi partneriaid cyflawni lleol

## 4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cael ei datblygu yn unol â'r cyd-destun a'r weledigaeth, amcanion a gwerthoedd sydd wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, ac mae'n darparu sail ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol a gyflwynwyd ar gyfer cyflawni'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngogledd Cymru.



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Cydweithio â rhanddeiliaid
2. Amcanion corfforaethol
3. Y Camau Nesaf

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**a) Cefndir**

Cafodd y Rhaglen SPF ei hymestyn yn 2025/26, ac fe wnaeth Llywodraeth y DU gadarnhau ychwaneg o arian i Ynys Môn (yn ychwanegol i'r £16.1M a dderbyniwyd ar gyfer 2022-2025), sef:

- Cyfalaf £1,495,296
- Refeniw £3,898,805
- Cyfanswm £5,394,101

Mae'r Rhaglen yn cynnwys pum thema buddsoddi allweddol:

- Cyflogadwyedd
- Iechyd, Diogelwch a Chymunedau Cynhwysol
- Sgiliau
- Cefnogaeth i Fusnesau
- Llefydd Llewyrchus

Gofynnwyd i'r Partneriaid Cyflawni gyflwyno ceisiadau i barhau â'u gweithgareddau am 12 mis arall yn ystod y cyfnod estynedig, gyda'r allbynnau a chanlyniadau fwy neu lai yr un fath at ddibenion adrodd. Yn dilyn hyn cafodd 20 prosiect ei gymeradwyo (12 prosiect unigol gan yr ALI ac 8 prosiect ALI ar y cyd h.y. prosiectau rhanbarthol). Mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb o'n partneriaid cyflawni a'r prosiectau a gymeradwywyd.

Roedd pob Partner Cyflawni'n gyfrifol am weithredu a rheoli ei brosiect ei hun, ac roedd tîm SPF y Cyngor (sydd â dau swyddog: Rheolwr Prosiect SPF a Swyddog Grantiau SPF, yn ogystal â chydweithwyr o'r Adran Gyllid) yn darparu cefnogaeth. Roedd y tîm SPF hefyd yn gweithio'n agos â'r Awdurdod Arweiniol Rhanbarthol (Cyngor Gwynedd) a'r Partneriaid Cyflawni er mwyn monitro ac adolygu cynnydd, gwariant a chydymffurfiaeth yn rheolaidd. Roedd trefniadau caeth mewn lle ar gyfer monitro ansawdd y prosiect a'r gyllideb, ynghyd â rheoli risgiau.

## b) Llywodraethu


Yr Awdurdod Lleol sydd yn penderfynu'n derfynol ynglŷn â dyrannu cyllid ar Ynys Môn, trwy Fwrdd Rhaglen UK SPF Ynys Môn yn dilyn yr alwad am brosiectau. Mae'r Bwrdd Rhaglen hwn yn cynnwys yr Arweinydd, yr Aelod Portffolio Cyllid, y Prif Weithredwr, y Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

Rôl y Cyngor yw monitro prosiectau. Mae Tîm SPF y Cyngor yn parhau i weithio'n agos â'r holl bartneriaid cyflawni er mwyn datblygu eu prosiectau a monitro materion a risgiau allweddol. Cynhelir cyfarfodydd pob pedair wythnos gyda phob un o'r 20 prosiect sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod pob agwedd yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau a rhoi'r prosiectau mewn cysylltiad â phartneriaid eraill os oes cyfle i gydweithio, osgoi dyblygu a rhannu arfer orau.


Mae Tîm SPF y Cyngor hefyd yn cyfarfod ar wahân gyda chynrychiolwyr Llywodraeth y DU unwaith y mis er mwyn eu diweddaru ar gynnydd, amlygu meysydd pryder a rhannu arfer orau.

## c) Trosolwg o'r Rhaglen

Mae'r siart isod yn dangos sut cafodd yr arian a neilltuwyd ei ddosbarthu i'r Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2022-2025 ar draws y Rhaglen SPF ar Ynys Môn:



Mae’r siart yn dangos sut y cafodd yr arian a neilltuwyd ei ddosbarthu ar draws themâu buddsoddi'r Rhaglen SPF ar Ynys Môn ar gyfer 2025-2026 yn unig.





Mae tîm SPF y Cyngor yn gweithio’n agos â Phartneriaid Cyflawni ac maent wedi meithrin perthynas weithio gref yn seiliedig ar ymddiriedaeth, bod yn agored a chydweithio er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau posib ar gyfer Ynys Môn. Y flaenoriaeth oedd sicrhau fod yr holl arian a ddyrannwyd i brosiectau’n cael ei ddefnyddio, a bod buddion ystyrlon yn cael eu cyflawni, er budd trigolion a busnesau Ynys Môn. Cynhelir cyfarfodydd monitro misol gyda phob prosiect, ac mae rhaglen benodol sy’n canolbwyntio ar gynnydd, cerrig milltir, gwariant, cysylltiadau cyhoeddus, risgiau, allbynnau a chanlyniadau, diweddariadau cyffredinol ac aliniad â rhaglenni eraill. Mae hawliadau chwarterol yn ffordd ychwanegol o asesu perfformiad.

At ei gilydd, mae blwyddyn olaf y Rhaglen SPF (2025/26) yn perfformio’n dda iawn ac nid oes unrhyw bryderon sylweddol. Erbyn hyn mae’r holl brosiectau wedi cyflwyno eu hawliadau ar gyfer Chwarter 3. Hyd yma (hyd at fis Rhagfyr 2025):

- Mae 93% o’r allbynnau arfaethedig wedi cael eu cyflawni
- Mae 44% o’r canlyniadau wedi cael eu cyflawni
- Mae cyfanswm y gwariant yn £2,544,398, sy’n cynrychioli 47.17% o ddyraniad SPF Ynys Môn.

Mae’r uchod yn unol â’r proffiliau cyflawni a gwariant oherwydd bod y grant yn cael ei dalu’n barhaus ac amseriad yr hawliadau cyfalaf, sydd fel arfer yn cael eu cyflwyno yn hwyrach yng nghylch y Rhaglen.




Ar draws rhychwant lawn y Rhaglen SPF ar Ynys Môn (2022-2026), erbyn y bydd yr hawliadau terfynol wedi cael eu cyflwyno a'u prosesu, rhagwelir y bydd y prosiectau wedi cyflawni buddion sylweddol i drigolion a chymunedau Ynys Môn, yn cynnwys yr isod (ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth o bell ffordd):

- Darparu cefnogaeth ariannol i 843 o fusnesau, mentrau a sefydliadau
- Helpu i greu, neu ddiogelu, 218 o swyddi ar yr Ynys
- Helpu 539 o bobl i ddod o hyd i waith
- Creu neu wella 240 o fwynderau / cyfleusterau.

Mae Atodiad B yn darparu manylion pellach am gyflawniadau'r Rhaglen. Sylwch mai ffigyrau hyd at 31 Rhagfyr 225 yw'r rhain (pan gafodd hawliadau'r prosiect eu cyflwyno ddiwethaf). Mae nifer o allbynnau'n parhau i gael eu cyflawni hyd at ddiwedd y prosiectau.

Tu hwnt i'r llwyddiannau a amlygwyd uchod, un canlyniad gwerthfawr yn sgil cyflawni'r Rhaglen SPF ar Ynys Môn yw'r ffocws cryf ar gynhwysiant a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r gwaith wedi dod â lleisiau busnesau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ynghyd o'r cyfnod cynllunio cychwynnol hyd at gyflawni prosiectau'r Rhaglen. Mae'r cyswllt eang hwn, ynghyd â gallu'r Tîm SPF lleol i ddod â sefydliadau cyflawni at ei gilydd, rhannu gwybodaeth ac annog cydweithio, wedi rhoi dilysrwydd a pherthnasedd i'r Rhaglen. Mae wedi sicrhau bod gweithgareddau'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a bod y buddion yn cyrraedd pob cymuned ar yr Ynys.

**d) Ymestyn y Rhaglen gyfredol a'r Broses Gau**

Ar 17 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Rhaglen SPF yn cael ei hymestyn hyd at 30 Medi 2026, fel bod mwy o amser i gyflawni'r gwaith gyda'r grant a ddyrannwyd. Nid oes rhagor o gyllid wedi cael ei ddyrannu ar gyfer gweithgareddau prosiect na gweinyddu'r SPF. Mae'r Tîm SPF ynghanol trafodaethau gyda'r rheolwyr prosiect i weld pwy fydd yn gwneud cais i ymestyn dyddiad dod i ben eu prosiect ar ôl 31 Mawrth 2026. Felly, ni fydd prosiectau SPF Ynys Môn i gyd yn cael eu cau ar yr un pryd fel rhan o'r broses cau prosiectau:

O ran arfarnu prosiectau, dyrannwyd arian i bob prosiect er mwyn cynnal a chyflwyno arfarniad annibynnol cyn cyflwyno'r hawliad terfynol. Mae'r Tîm SPF yn gweithio gyda'r prosiectau i sicrhau fod yr holl gerrig milltir ac ymrwymiadau arfarnu'n cael eu cyflawni.

**e) Arfarnu'r Rhaglen**

Mae'r Tîm Rhanbarthol wedi cynnal arfarniad cyffyrddiad ysgafn o gyflawniad y Rhaglen SPF yng Ngogledd Cymru (2022-2025) - a fydd yn cael ei adolygu er mwyn arfarnu'r flwyddyn olaf.

Mae Llywodraeth y DU wedi comisiynu arfarniad cenedlaethol o'r Rhaglen yn ogystal, ac mae'r Cyngor wedi cyflwyno gwybodaeth.

Ar ddiwedd y Rhaglen SPF ym mis Medi 2026, mae Tîm SPF Ynys Môn yn bwriadu cynnal arfarniad lefel uchel i nodi effaith a chyrhaeddiad y cyllid SPF ledled Ynys Môn. Y nod yw rhoi darlun manwl gywir o'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae'r buddsoddiad wedi'i gael ar gymunedau, lleoedd, busnesau ac unigolion ledled yr Ynys. Bydd hyn yn cael ei rannu â phob Aelod Etholedig.

**f) Risgiau**

Roedd y risgiau y daethpwyd ar eu traws wrth gyflawni'r Rhaglen SPF ar Ynys Môn yn cynnwys:

I. Cyflawni'r rhaglen o fewn yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth y DU.
II. Y risg i enw da'r Cyngor fel y 'corff arweiniol' a oedd yn gyfrifol am ddewis y prosiectau llwyddiannus a rheoli'r dyraniad UK SPF cyffredinol ar gyfer Ynys Môn.
III. Bod angen mwy o arian ar brosiectau nag oedd ar gael o fewn y Rhaglen oherwydd effaith chwyddiant a chynnydd mewn costau.
IV. Cyflawni yn ddibynnol yn bennaf ar berfformiad Partneriaid Cyflawni allanol.
V. Yr angen i adolygu'n barhaus ac addasu i newidiadau yn amgylchiadau'r Partneriaid Cyflawni.

Roedd pob prosiect yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal ei Gofrestr Risg ei hun a oedd yn cael ei diweddaru pob chwarter.

**g) Camau Nesaf / Cyllid ar gyfer y Dyfodol**

Mae goblygiadau staffio yn gysylltiedig â chau unrhyw Raglen gyllido. Yn y Cyngor, mae 11 swydd gyfwerth ag amser llawn yn cael ei hariannu drwy UK SPF yn uniongyrchol. Mae rhai o'r rolau hyn yn secondiadau mewnol, ac felly bydd hyn yn effeithio ar staff ychwanegol. Hefyd, mae 39 swydd y tu allan i'r Cyngor mewn perygl yn sgil cau prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r SPF ar Ynys Môn.

| |
|---|
| Ar hyn o bryd y disgwyliad yw y bydd cronfa newydd yn cael ei sefydlu wedi i'r gronfa SPF ddod i ben. Serch hynny, er y bydd y Gronfa Twf Lleol (LGF) yn debyg, mae'r gronfa a'i hegwyddorion craidd yn wahanol iawn i'r SPF. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yr SPF yn dal i gael ei gweinyddu yn ystod 2026/2027 (yn debyg i flwyddyn drosiannol 2025/2026) ond bydd y dyraniad tua £4.5M yn llai a bydd mwyafrif y cyllid yn gyllid cyfalaf.<br><br>Wedi 2027, bydd yr LGF, fel ac y mae pethau ar hyn o bryd, yn cael ei chyflawni gan y Cydbwyllgorau Corfforedig Rhanbarthol ac felly ni fydd yn cael ei chyflawni'n fewnol gan dimau SPF. Rydym yn aros am ganllawiau pellach gan y Llywodraeth yn dilyn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y Nadolig. Fe wnaeth y Cyngor (ac ALlau eraill) ymateb yn gadarn i'r ymgynghoriad hwnnw. |

**7. Asesiadau effaith**

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Dim - bydd ceisiadau gan, neu ar gyfer, grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu trin union yr un fath, a gallai'r grwpiau hynny gael eu targedu i dderbyn cyllid. |

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Cadarnhaol - mae'n bosib y gallai'r cyllid hwn gael ei dargedu at y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Cadarnhaol - trwy greu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn elwa ac yn aros yn yr ardal.<br>Cyfleoedd i ddysgu Cymraeg / cynyddu hyder trwy rai o'r Prosiectau SPF.<br>Codi proffil yr iaith Gymraeg |

7.4. Effaith bosib ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

| |
|---|
| Cadarnhaol - fel rhan o'r broses adrodd a monitro mae'n rhaid i bartneriaid cyflawni ddarparu manylion ynglŷn ag unrhyw weithgareddau i gefnogi Sero Net. |

**8. Goblygiadau Ariannol**

| |
|---|
| Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir gan fod costau staff wedi cael eu talu a bydd y cyllid grant gan Lywodraeth y DU yn cwrdd â'r costau hynny. |

| |
|---|
| |

**9. Atodiadau**

| |
|---|
| **Atodiad A - Crynodeb o Brosiectau SPF Ynys Môn**<br>**Atodiad B - Crynodeb o Allbynnau Rhaglen UK SPF Ynys Môn (2022-2026)** |

**10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir**

| |
|---|
| Cronfa Ffyniant Gyffredin.pdf |

**Atodiad A - Crynodeb o Brosiectau SPF Ynys Môn**

**Blaenoriaeth Buddsoddi: Cymuned a Lle**

| Enw'r Prosiect | Sefydliad Cyflawni |
|---|---|
| **Gwella gwytnwch ariannol a llesiant trigolion Ynys Môn** | **CSYM** |
| Nod y prosiect hwn, ar y cyd â Chyngor Ar Bopeth Ynys Môn, yw gwella gwytnwch ariannol teuluoedd ar Ynys Môn trwy ddarparu cefnogaeth un i un mewn lleoliadau cymunedol. Trwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chymorth parhaus, mae'n ceisio mynd i'r afael â chaledi presennol a gwella sefydlogrwydd ariannol tymor hir ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu tlodi ac amddifadedd. | |
| **Balchder Bro** | **Menter Môn** |
| Bydd y prosiect yn darparu gweithgareddau a gwelliannau ledled yr Ynys, gan alinio â blaenoriaethau cymunedol a strategol. Ei nodau allweddol yw ysgogi balchder lleol, gwella llesiant a grymuso cymunedau. Bydd yn gwella hunaniaeth leol, cefnogi digwyddiadau celfyddydol ac amgylcheddol, cryfhau hybiau cymunedol, a hyrwyddo cynaliadwyedd trwy gyfrwng mentrau sero net ac ymdrechion cadwraeth. | |
| **Cysylltu Pobl, Natur a Lle** | **Small Woods** |
| Bydd y prosiect hwn yn gwella sgiliau, gwytnwch a llesiant y rhai hynny sy'n wynebu rhwystrau o ran cyflogaeth trwy ddatblygu safleoedd awyr agored hygyrch ac ehangu gweithgareddau dysgu ar Ynys Môn. Bydd yn cynnig rhaglenni, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli seiliedig ar natur, wrth hyrwyddo gyrfaoedd gwyrdd, adfer coetiroedd a gwella hygyrchedd. | |
| **Rhaglen Cyrchfan Gwyrdd** | **CSYM** |
| Bydd y prosiect yn cefnogi nodau'n gysylltiedig â'r amgylchedd a'r economi ymwelwyr, gan alinio â'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. Mae'n canolbwyntio ar wella tirweddau, mynd i'r afael â'r argyfwng natur, hyrwyddo llesiant, cefnogi cymunedau bywiog a rheoli effeithiau newid hinsawdd. | |
| **Creu Ynys Actif** | **CSYM** |
| Mae tair elfen allweddol i'r prosiect hwn: grantiau ar gyfer clybiau chwaraeon lleol, mentrau Môn Actif i gefnogi gofal dementia, diogelwch dŵr, ac iechyd ieuenctid, a buddsoddiad cyfalaf mewn canolfannau hamdden. | |
| **Prosiect Pontio Cymunedau Môn** | **CSYM** |
| Nod y prosiect hwn, ar y cyd â Medrwn Môn, yw creu ynys wydn trwy rymuso cymunedau i ddylunio a darparu atebion yn seiliedig ar anghenion lleol. Mae mentrau allweddol yn cynnwys datblygu a moderneiddio hybiau cymunedol, creu lleoedd diogel newydd, cynnal astudiaeth dichonolrwydd ar gyfer mannau chwarae a mannau gwyrdd, a darparu hyfforddiant i gryfhau capasiti grwpiau cymunedol. | |
| **Lle Da** | **CSYM** |
| Nod Rhaglen Cynllunio Lle Ynys Môn ar gyfer canol trefi a phentrefi yw gwella mannau trefol, cefnogi cynghorau tref a gwella cyfleusterau lleol. Mae gweithredoedd allweddol yn cynnwys datblygu Cynlluniau Cynllunio Lle, ail-feddiannu eiddo gwag, gwella blaenau siopau a hyrwyddo digwyddiadau a gwneud gwelliannau gweledol. | |
| **Actif, Iach a Hapus Gogledd Cymru** | **Gogledd Cymru Actif** |
| Nod y prosiect aml-awdurdod hwn sy'n cwmpasu Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yw cefnogi gweithgarwch corfforol rheolaidd trwy ddatblygu capasiti, sgiliau, gwytnwch a hyder mewn | |



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| | |
|---|---|
| cymunedau. Wedi'i arwain gan gymunedau, mae'n canolbwyntio ar eu grymuso er mwyn creu atebion cynaliadwy ar gyfer gweithgarwch dyddiol. | |
| **Cyfleoedd Gweledigaeth Dwf Gogledd Cymru** | **Uchelgais Gogledd Cymru** |
| Nod y prosiect aml-awdurdod hwn ledled Gogledd Cymru yw gwneud y mwyaf o fuddion o fuddsoddiadau yn gysylltiedig â Chynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'n canolbwyntio ar bum ffrwd gwaith allweddol - cydweithio rhanbarthol, sgiliau, digidol, ynni a sero net, a gwerth cymdeithasol - darparu gweithgareddau er mwyn sicrhau fod cymunedau'n elwa o'r mentrau hyn. | |
| **Caru Cymru** | **Cadwch Gymru'n Daclus** |
| Mae'r prosiect aml-awdurdod hwn yn Ynys Môn, Conwy, Sir y Fflint a Wrecsam yn canolbwyntio ar ehangu ymdrechion i gasglu sbwriel a chefnogi mentrau lleol i leihau sbwriel. Mae gweithgareddau'n cynnwys tyfu rhwydweithiau gwirfoddolwyr, hyrwyddo parthau di-sbwriel, codi ymwybyddiaeth, cefnogi strategaethau awdurdodau lleol a threfnu digwyddiadau, megis caffis trwsio a digwyddiadau ailgylchu dros dro, er mwyn mynd i'r afael â gwastraff a thipio anghyfreithlon. | |

### Blaenoriaeth Buddsoddi: Cefnogi Busnesau Lleol

| **Enw'r Prosiect** | **Sefydliad Cyflawni** |
|---|---|
| **Cefnogi Busnesau Môn** | **Môn CF** |
| Mae'r prosiect hwn yn cynnig mentora un i un, cynllunio busnes, cymorth gyda llif arian, cefnogaeth gyda cheisiadau UTR (Cyfeirnod Trethdalwr Unigryw), a grantiau bychan ar gyfer busnesau newydd a phresennol. Mae gwasanaethau'n cynnwys cymorth gyda chynlluniau busnes, ceisiadau grant, hyfforddiant ar hunangyflogaeth, gwella presenoldeb ar-lein a chyfeirio at adnoddau eraill. | |
| **Tanio Arloesedd** | **MSParc** |
| Bydd Tanio Arloesedd yn creu cyflogaeth lefel uchel, cefnogi twf busnesau, meithrin busnesau newydd ac uwchsgilio pobl leol yn y sectorau digidol ac ynni ledled Ynys Môn. Bydd hefyd yn helpu plant y mae perygl iddynt ddod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) trwy addysgu sgiliau bywyd a hyrwyddo llwybrau busnes, yn ogystal â chryfhau gwytnwch personol ac economaidd. | |
| **Cymorth Arbenigol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol yng Ngogledd Cymru** | **Cwmpas** |
| Mae'r prosiect aml-awdurdod hwn yn Ynys Môn a Gwynedd yn darparu gwasanaeth ymgynghori arbenigol a chefnogaeth datblygu marchnadoedd er mwyn gwella Busnes Cymdeithasol Cymru. Mae'n cynnig gwasanaeth ymgynghori wedi ei deilwra mewn meysydd megis adnoddau dynol, treth a chyllid, ynghyd â rhwydweithio, hyfforddiant a digwyddiadau er mwyn helpu'r sector i dyfu a chael mynediad at gyfleoedd cyllido. | |
| **Hwb Menter** | Menter Môn |
| Bydd y prosiect aml-awdurdod hwn yn Ynys Môn a Gwynedd yn cynnal a datblygu Hwb Menter i gefnogi entrepreneuriaid trwy gyfrwng gwybodaeth, cyngor, cyfleoedd rhwydweithio a darparu gofod ar gyfer eu busnesau newydd. Bydd hefyd yn hyrwyddo defnyddio gweithgareddau SMART mewn trefi lleol trwy'r fenter SMART Gwynedd a Môn. | |
| **Cynllun Talebau Sgiliau ac Arloesi** | Prifysgol Bangor |
| Mae'r cynllun aml-awdurdod hwn yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint yn cynnig y Cynllun Talebau Sgiliau ac Arloesi i gefnogi busnesau bach a chanolig ac entrepreneuriaid sydd yn raddedigion. Gellir defnyddio'r talebau i gael mynediad at arbenigedd a chyfleusterau Prifysgol Bangor, a hyfforddiant yn gysylltiedig ag ymchwil a datblygu, arloesi a datblygu sgiliau. | |

**Blaenoriaeth Buddsoddi: Pobl a Sgiliau**

| Enw’r Prosiect | Sefydliad Cyflawni |
|---|---|
| **Pobl Ifanc Môn - Llwyddo Gyda’n Gilydd** | **CSYM** |
| Nod y prosiect hwn yw cefnogi pobl ifanc ar Ynys Môn trwy wella sgiliau, llesiant a lleihau’r risg o ddod yn NEET. Bydd yn darparu cwricwlwm amgen gyda chefnogaeth lles emosiynol, gweithgareddau awyr agored, a chymwysterau, yn ogystal â chyfleoedd profiad gwaith estynedig trwy bartneriaethau gyda chyflogwr lleol. | |
| **Lle am Byth** | **CSYM** |
| Nod y prosiect hwn yw adnewyddu cyfleusterau storio yn Llyfrgell Llangefni a chreu gofod cymunedol croesawgar ar gyfer y llyfrgell a sefydliadau lleol. Bydd yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys ymweliadau gan awduron, gweithdai creadigol, a chymorth digidol er mwyn cynorthwyo preswylwyr i wella eu sgiliau TG. | |
| **Camau Cefnogol** | **GLLM** |
| Mae Camau Cefnogol yn gynllun aml-awdurdod sy’n cynnig mentora wedi ei deilwra i bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy’n trosglwyddo i addysg bellach, ynghyd â chefnogaeth gynhwysfawr ym maes llesiant ac iechyd meddwl, er mwyn cynorthwyo i bontio o goleg i waith. | |
| **Sgiliau Cyflogwyr Gogledd Cymru** | **GLLM** |
| Bydd y prosiect aml-awdurdod hwn yn helpu cyflogwyr i nodi anghenion hyfforddi a bylchau yn sgiliau eu gweithlu, gan gynnig sesiynau grŵp ac unigol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu sgiliau gweithwyr a thyfu busnesau. | |
| **Môn Ymlaen** | |
| Gwasanaethau Cymorth Cyflogaeth Dwys i leihau cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch ledled Ynys Môn, a fydd yn ei dro yn cynorthwyo busnesau lleol i lenwi swyddi gwag ac uwchsgilio staff. Uwchsgilio cyfranogwyr gyda rhaglen ddarparu wedi'i deilwra o hyfforddiant a chymwysterau tra hefyd yn cynnig lleoliad gwaith â thâl i gyfranogwyr fel carreg gamu i mewn i gyflogaeth. | |

**Atodiad B - Crynodeb o Allbynnau ar gyfer Rhaglen UKSPF Ynys Môn 2022-2026 (mae'r ffigyrau'n gywir hyd at hawliadau'r prosiect ar 31 Rhagfyr 2025)**

| **Blaenoriaeth Buddsoddi: Cymuned a Lle** | | |
|---|---|---|
| **Allbwn** | **Rhagolwg** | **Gwirioneddol** |
| Maint y gofod gwyrdd neu glas sydd wedi'i greu neu ei wella ($m^2$) | 1,701 | 7,446 |
| Maint y tir sydd wedi cael ei wneud yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn / heb stepiau ($m^2$) | 50 | 45 |
| Maint y parth cyhoeddus sydd wedi cael ei greu neu ei wella ($m^2$) | 550 | 511 |
| Nifer yr amwynderau/cyfleusterau sydd wedi eu creu neu eu gwella (nifer amwynderau neu gyfleusterau) | 99 | 210 |
| Nifer yr adeiladau masnachol sydd wedi eu cwblhau neu eu gwella (nifer adeiladau) | 76 | 68 |
| Nifer y digwyddiadau / rhaglenni cyfranogol | 845 | 1,513 |
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd a ddatblygwyd o ganlyniad i gymorth | 54 | 48 |
| Nifer y teuluoedd sy'n derbyn cymorth | 256 | 278 |
| Nifer y teuluoedd a dderbyniodd gymorth i fanteisio ar fesurau effeithiolrwydd ynni | 140 | 135 |
| Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogwyd | 1,152 | 1,315 |
| Nifer y gwelliannau cymunedol a gwblhawyd | 698 | 395 |
| Nifer o lwybrau beicio neu lwybrau troed sydd wedi eu creu o'r newydd neu eu gwella | 53 | 8 |
| Nifer y sefydliadau sy'n derbyn cymorth ariannol heblaw am grantiau (nifer y sefydliadau) | 30 | 50 |
| Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau | 121 | 210 |
| Nifer y sefydliadau sy'n derbyn cymorth nad yw'n gymorth ariannol | 186 | 166 |
| Nifer o bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant | 78 | 71 |
| Nifer o bobl y daethpwyd i gysylltiad â nhw | 21,545 | 21,481 |
| Nifer yr eiddo a adsefydlwyd | 3 | 3 |
| Nifer yr asedau Twristiaeth, Diwylliant neu Dreftadaeth sydd wedi cael eu creu neu eu gwella | 47 | 70 |
| Nifer o goed a blannwyd | 5,250 | 5,250 |
| Nifer o gyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd (nifer o gyfleoedd) | 2,679 | 2,332 |

| **Blaenoriaeth Buddsoddi: Cefnogi Busnesau Lleol** | | |
|---|---|---|
| **Allbwn** | **Rhagolwg** | **Gwirioneddol** |
| Cyfanswm yr isadeiledd ynni carbon isel neu garbon sero a gwblhawyd ($m^2$) | 5,006 | 64,319 |
| Nifer o angylion buddsoddi yr ymgysylltwyd â nhw | 42 | 45 |
| Nifer o gynlluniau datgarboneiddio a ddatblygwyd o ganlyniad i gefnogaeth | 39 | 32 |
| Nifer o fentrau sy'n derbyn buddsoddiad gan angel fuddsoddi | 9 | 9 |
| Nifer o fentrau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol heblaw grantiau | 61 | 57 |
| Nifer o fentrau sy'n derbyn grantiau | 516 | 500 |
| Nifer o fentrau sy'n derbyn cefnogaeth ariannol heblaw grantiau | 955 | 918 |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y digwyddiadau / rhaglenni cyfranogol | 51 | 75 |
| Nifer yr isadeiledd ynni carbon isel neu garbon sero a osodwyd (nifer unedau) | 23 | 23 |
| Nifer o bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant | 150 | 197 |
| Nifer o bobl y daethpwyd i gysylltiad â nhw | 100 | 100 |
| Nifer y darpar entrepreneuriaid a dderbyniodd gymorth er mwyn bod yn barod i fentro | 421 | 414 |
| Nifer yr asedau Twristiaeth, Diwylliant neu Dreftadaeth sydd wedi cael eu creu neu eu gwella | 16 | 32 |

| **Blaenoriaeth Buddsoddi: Pobl a Sgiliau, gan gynnwys Lluosi** | | |
|---|---|---|
| **Allbwn** | **Rhagolwg** | **Gwirioneddol** |
| Nifer o bobl economaidd anweithgar sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi gan weithiwr allweddol | 615 | 778 |
| Nifer o bobl sy'n cael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl neu iechyd corfforol, gan arwain at gyflogaeth | 76 | 46 |
| Nifer o bobl sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant | 180 | 204 |
| Nifer o bobl mewn gwaith sydd yn ymgysylltu â'r system sgiliau | 347 | 340 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i ennill trwydded alwedigaethol | 82 | 82 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i gael gwaith | 539 | 432 |
| Nifer o bobl sy'n ailhyfforddi | 236 | 218 |
| Nifer o bobl sy'n cael eu cynorthwyo i gofrestru ar gwrs trwy dderbyn cymorth ariannol | 440 | 387 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i wella sgiliau sylfaenol | 856 | 1,016 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i chwilio am waith | 648 | 742 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i ddysgu sgiliau bywyd | 1,759 | 1,377 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i ennill cymhwyster | 839 | 808 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i gyfranogi mewn addysg | 687 | 580 |
| Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni profiad gwaith | 116 | 98 |
| Nifer o bobl sydd wedi cael eu hallgau'n gymdeithasol sy'n derbyn cefnogaeth | 211 | 260 |
| Nifer o gyfleoedd gwirfoddoli a gefnogwyd (nifer o gyfleoedd) | 66 | 66 |
| Nifer o gyrsiau rhifedd oedolion sy'n cael eu cynnal yn yr ardal trwy'r rhaglen Lluosi (Nifer o gyrsiau) | 90 | 123 |
| Nifer o wahanol gohortau sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau rhifedd (Nifer o gohortau) | 45 | 55 |
| Nifer o bobl sy'n ennill cymhwyster | 196 | 178 |
| Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau wedi'u hariannu gan y rhaglen Lluosi | 1550 | 1476 |
| Nifer o bobl sy'n derbyn cymorth i gael gwaith | 150 | 150 |

***Mae nifer o'r prosiectau yn parhau i hawlio allbynnau hyd at ddyddiad gorffen y prosiect. Mae trafodaethau gyda phartneriaid cyflawni'n awgrymu y bydd y rhagolygon yn cael eu cyflawni.***

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **17.03.2026** |
| **Pwnc:** | **Cyllid Llywodraeth y DU - Caergybi: Trawsnewid yn Seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Dylan Rees** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Enw** | **Rôl** |
|---|---|
| Y Cynghorydd Gary Pritchard | Arweinydd ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd |
| **Swyddog Gwasanaeth (Cefnogi)** | **Rôl** |
| Tudur Jones | Prif Swyddog Datblygu Economaidd |
| Efan Milner | Rheolwr Rhaglen |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Dyma'r pumed diweddariad i'r Pwyllgor er mwyn amlinellu cynnydd wrth wireddu'r Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU yng Nghaergybi (y Gronfa Ffyniant Bro gynt).

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac Argymhellion

X Er sicrwydd

X Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith

X Er gwybodaeth

Argymhelliad/argymhellion:
Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1. Nodi cynnydd o ran gwireddu'r Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU yng Nghaergybi.
A2. Nodi rôl y Cyngor o ran cefnogi Partneriaid Cyflawni'r Rhaglen a llwyddiannau hyd yma.
A3. Nodi'r canlyniadau a'r allbynnau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth y DU a gyflawnwyd.
A4. Nodi'r prosiectau a gwblhawyd hyd yma a'r dyddiadau cwblhau ar gyfer y prosiectau sy'n weddill.

Bydd y diweddariad hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini yn canolbwyntio ar gadarnhau
a. Pa brosiectau a gwblhawyd a'r canlyniadau/allbynnau a gyflawnwyd



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| |
|---|
| b. Pa brosiectau sydd bron â'u cwblhau a'r dyddiadau cwblhau disgwyliedig |

**4. Sut mae'r argymhelliad/argymhellion yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?**

Datblygwyd y Rhaglen a Ariennir gan Lywodraeth y DU yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cyngor, ac roedd polisïau a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol allweddol eraill yn llywio cwmpas y Cynllun (h.y. Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r Papur Gwyn Ffyniant Bro).

Strategaethau lleol:

- Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2023)
- Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, 2018)
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ynys Môn 2020 - 2024 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2020)
- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd 2011 - 2026 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2017)
- Cynllun Tuag at Sero Net Cyngor Sir Ynys Môn 2022-2025 (Cyngor Sir Ynys Môn, 2022)

**5. Themâu sgriwtini allweddol**

Themâu allweddol y dylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
2. Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
3. Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
4. Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
5. Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
    a. Hirdymor
    b. Atal
    c. Integreiddio
    d. Cydweithio
    e. Cynnwys
6. Yr effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar:
    a. grwpiau gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
    b. y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
    c. cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a thrin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

### 6.1 Crynodeb

Ym mis Ionawr 2023 cyflwynodd y Cyngor gais llwyddiannus am £17m gan Lywodraeth y DU o dan y Rhaglen Ffyniant Bro. Mae gan Raglen Ffyniant Bro Caergybi ddau nod canolog. Yn gyntaf, mynd i'r afael â lefelau uchel o amddifadedd, ac yn ail, goresgyn methiannau yn y farchnad yng nghanol y dref. Mae diwylliant a threftadaeth yn elfennau pwysig o'r bid ac oherwydd bod diffyg yn y farchnad ar hyn o bryd, mae angen buddsoddiad gan y sector cyhoeddus er mwyn i'r elfennau hyn dyfu a ffynnu: Nod y Rhaglen felly yw:

a. Lleihau nifer yr eiddo gwag a gwella edrychiad canol y dref
b. Cynyddu nifer ymwelwyr â'r dref a chynyddu gwariant o fewn y dref
c. Cynyddu lefelau cyflogaeth a lleihau diweithdra
d. Darparu adeiladau modern er mwyn diwallu anghenion busnesau
e. Cynyddu a gwella mynediad i'r celfyddydau, diwylliant a hamdden
f. Cynyddu maint ac amrywiaeth yr hyn sydd gan canol y dref i'w gynnig

Mae'r cyllid bellach yn cael ei alw'n Gronfa Adfywio Lleol ond mae Cronfa Ffyniant Bro yn parhau i gael ei ddefnyddio'n lleol. Isod, ceir disgrifiad byr o'r prosiectau o fewn y rhaglen ehangach. Mae rhai prosiectau wedi'u cwblhau'n ymarferol ac maent bellach yn weithredol, a bydd gweddill y prosiectau'n cael eu cwblhau erbyn mis Mai 2026. Mae sawl prosiect arall wedi cael eu tynnu'n ôl yn llwyr.

Ceir disgrifiad byr o'r prosiectau isod ac mae disgrifiad mwy manwl, gan gynnwys costau ac allbynnau i'w cyflawni ar gyfer pob prosiect, yn **Atodiad A**.

### 6.2 Trefniadau Llywodraethu'r Rhaglen

Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen ar y cychwyn er mwyn goruchwylio'r gwaith o wireddu'r rhaglen. Mae aelodau'r Bwrdd yn cynnwys yr AS lleol, Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Portffolio Cyllid, Prif Weithredwr y Cyngor Sir, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a swyddogion y Rhaglen.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Bwrdd rheolaidd yn ystod cyfnod gwireddu'r Rhaglen er mwyn gosod cyfeiriad, ystyried cynigion ar gyfer prosiect a monitro cynnydd. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod am unrhyw newidiadau i'r Rhaglen ac wedi eu cymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyllidebau, allbynnau, canlyniadau, a materion sy'n effeithio ar wireddu'r prosiectau. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu cofrestr risgiau'r Rhaglen, er mwyn sicrhau fod mesurau lliniaru addas ar waith er mwyn lleihau'r risgiau.

Cyflwynodd swyddogion y Cyngor adroddiadau chwarterol manwl i Lywodraeth y DU hefyd, hyd at fis Gorffennaf 2025, pan newidiwyd y trefniadau adrodd. Roedd yr adroddiadau i Lywodraeth y DU yn cael eu hadolygu gan swyddogion o'r adran Gyllid a'u cymeradwyo gan Swyddog Adran 151 y Cyngor. O dan y trefniadau newydd, cyflwynir yr adroddiad nesaf i Lywodraeth y DU ym mis Ebrill 2026. Mae Swyddogion y Rhaglen hefyd yn cyfarfod yn fisol â swyddogion Llywodraeth y DU er mwyn adrodd ar gynnydd a rhoi gwybod am unrhyw broblemau. Mae Llywodraeth y DU yn fodlon fod y rhaglen yn cyflawni'n unol â'r nodau arfaethedig.

**6.1 Partner Cyflawni - Cyngor Tref Caergybi - £1.48M**
**Cabannau**
Ail-ddatblygu pedwar cysgodfan ar draeth Newry a'u troi'n gabannau gwerthu ar gyfer busnesau bychan. Mae'r pedwar caban wedi'u cwblhau ac maent yn cael eu defnyddio gan fusnesau lleol. Mae'r busnesau'n cynnwys; Y Cwt Creu, Cuffed-in Coffee, Môn Ice ac Island Bakes. Trwy symud i'r cabannau mae busnesau wedi gallu tyfu ac, o gymharu ag allbynnau gwreiddiol y rhaglen, mae mwy o swyddi na'r disgwyl wedi'u creu. Yr amcangyfrif yw eu bod wedi darparu 6.5 o swyddi cyfystyr ag amser llawn yn ystod y flwyddyn fasnachu gyntaf, sef dwywaith y disgwyl. Mae'r cabannau wedi cael croeso yn lleol ac maent wedi cyfrannu at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr â Thraeth Newry, y tu allan i dymor y llongau Mordaith.

**Adeiladau'r Empire**
Fel rhan o waith adnewyddu adeiladau'r Empire, mae capsiti'r ganolfan chwarae wedi cynyddu, mae'r ffrâm chwarae wedi cael ei huwchraddio a'r sinema wedi cael ei hailwampio, a hynny er mwyn gwella profiad ymwelwyr. Adeiladwyd estyniad bychan yng nghefn yr eiddo er mwyn creu ystafell ddigwyddiadau ar gyfer partïon, toiledau newydd a chegin fodern er mwyn caniatáu i'r Empire reoli gofynion arlwyo yn sgil cynyddu capasiti'r ganolfan chwarae. Mae gwaith adnewyddu adeiladu'r Empire bellach wedi'i gwblhau ac mae'n gweithredu'n llwyddiannus. Mae gwelliannau sylweddol a mesuradwy wedi deillio o'r gwaith adnewyddu, gan gynnwys cynyddu nifer ymwelwyr, ymgysylltu â'r gymuned a chapasiti gwasanaeth. Mae'r gwaith wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynnydd sylweddol mewn niferoedd ymwelwyr yn gyffredinol, ac mae'n denu tua 2000 o ymwelwyr yr wythnos yn ystod yr amseroedd brig, sef cynnydd sylweddol o 600 yr wythnos. Mae'r cyfleusterau bellach yn darparu ased cymunedol modern, cynhwysol a chynaliadwy sy'n parhau i gefnogi gweithgarwch economaidd a gwella llesiant yng Nghaergybi. Mae'r prosiect wedi creu 4.5 o swyddi cyfystyr ag amser llawn, sef 3 yn fwy na'r rhagolwg gwreiddiol a nodwyd yn y cais, sef 1.5.

**6.2 Partner Cyflawni - Môn CF - £5.41M**
**Hen Adeilad yr HSBC:**
**Contractwr - OBR Construction (Ynys Môn)**
Mae adeilad yr HSBC yn cael ei adnewyddu er mwyn darparu dwy uned fasnachol ar wahân (Bar Cwrw a Bwyty) a 7 fflat llety dros nos. Nod darparu bwyty a bar cwrw yw ceisio denu mwy o ymwelwyr i'r dref a chefnogi busnesau cyfagos yn anuniongyrchol. Er bod y gwaith adnewyddu wedi datblygu'n dda yn gyffredinol, bu oedi sylweddol o ganlyniad i'r broses ar gyfer adolygu, addasu a chytuno ar ofynion draenio cynaliadwy. Rhagwelir bellach y bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Mai 2026. Bydd Swyddogion y Cyngor yn hysbysu Llywodraeth y DU fod yr amserlen wedi newid yn ystod y cyfnod adrodd nesaf ym mis Ebrill. Bydd bragdy lleol, Bragdy Cybi, yn rhedeg y Bar Cwrw ac mae Môn CF wedi cychwyn proses fynegi diddordeb newydd ar gyfer y bwyty. Nod yr unedau masnachol yn yr adeilad fydd darparu 16 o swyddi cyfystyr ag amser llawn, gan ddarparu swyddi lleol o ansawdd uchel yng nghanol y dref.

**Adeilad Canolog**
**Contractwr - OBR Construction (Ynys Môn)**
Mae gwaith ar yr Adeilad Canolog yn datblygu'n dda ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2026. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd caffi'n cael ei sefydlu ar y llawr gwaelod a Stiwdio Ddawns ar y lloriau uchaf. Mae dros 100+ o fyfyrwyr wedi cofrestru â'r

Stiwdio Ddawns a bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr â'r stryd fawr, yn ogystal â chael effaith weledol gadarnhaol sylweddol trwy ddod ag adeilad adfeiliedig yn ôl i ddefnydd. Rhwng y ddau fusnes fydd yn gweithredu o'r adeilad, bydd 7 o swyddi cyfystyr ag amser llawn yn cael eu cefnogi trwy wella'r adeilad a dod ag adeilad adfeiliedig yn ôl i ddefnydd.

**9 Stryd Stanley**
**Contractwr - Adeiladwyr Môn (Ynys Môn)**
Mae'r gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau bellach ac mae busnes lleol - Anglesey Soap - wedi agor ar y llawr gwaelod. Mae'r gofod manwerthu'n cynnal 1.5 o swyddi cyfystyr ag amser llawn. Mae'r fflat dwy ystafell wely uwchben y siop wedi cael ei osod hefyd, gan ddarparu gofod preswyl modern yng nghanol y dref.

**14a/b Stryd Stanley**
Bu'n rhaid tynnu'r cynllun hwn o'r Prosiect Eiddo Gwag oherwydd problemau strwythurol yn gysylltiedig â Thŷ Churchill (mae'r ddau adeilad yn sownd i'w gilydd). Er mwyn adennill yr Allbynnau a'r Canlyniadau a gollwyd, mae'r Bwrdd Rhaglen wedi cytuno i drosglwyddo'r gyllideb i eiddo arall (2 - 4 Stryd y Farchnad). Mae'r gwaith wedi'i gwblhau ar yr adeilad hwn. Mae bwyty Eidalaidd, Feast Brothers, wedi agor yn yr adeilad. Mae adnewyddu'r adeilad hwn wedi helpu i gynnal 4 swydd cyfystyr ag amser llawn a denu busnesau bychan a sefydlwyd yn barod i'r dref.

**6.3 Partner Cyflawni - Esgobaeth Bangor - £1.89M**
**Contractwr - Grosvenor Construction (Conwy)**
Bwriad prosiect yr Esgobaeth oedd ail-drefnu elfennau mewnol Eglwys Cybi Sant trwy gael gwared â seddau a hen gyfarpar er mwyn creu gofod ar gyfer y gymuned, a chaniatáu i'r eglwys gynnal digwyddiadau gwahanol er mwyn denu plwyfolion newydd i gynnal dyfodol yr Eglwys. Gosodwyd system wresogi o dan y llawr a nodweddion lleihau carbon eraill er mwyn uwchraddio'r system wresogi a rheoli costau rhedeg yr adeilad.

Yn ail, adeiladwyd estyniad modern ar Eglwys y Bedd er mwyn creu cegin a thoiledau ar gyfer y fenter gymdeithasol fydd yn defnyddio'r adeilad. Mae adeilad gwreiddiol Eglwys y Bedd wedi cael ei foderneiddio, mae'r system wresogi a'r goleuadau wedi cael eu gwella, yn ogystal â gosod ffryntiad gwydr. Trwy ymestyn yr adeilad, y nod yw creu 2.5 o swyddi cyfystyr ag amser llawn.

Mae'r ddau brosiect bellach wedi'u cwblhau'n ymarferol, er bod materion archeolegol, oedi o ran cyflenwi deunyddiau a derbyn caniatâd wedi creu oedi drwy gydol y prosiect. Derbyniwyd adborth cadarnhaol gan yr Eglwys, a'r Ficer yn arbennig, oedd yn canmol safon y gwaith, gan ddweud fod yr adeilad yn llawer mwy defnyddiol erbyn hyn.

Mae gwasanaethau rheolaidd wedi ailgychwyn yn yr Eglwys ar ddydd Mercher a dydd Sul, ac mae'r Esgobaeth yn trafod â'r fenter gymdeithasol leol sy'n gweithredu Eglwys y Bedd.

**6.4 Partner Cyflawni - Ucheldre - £4.18M**
**Contractwr - Grosvenor Construction (Conwy)**

Oherwydd cymhlethdod a sgôp technegol y prosiect, mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith wedi ymestyn mwy na'r disgwyl. Er hynny, mae Ucheldre wedi parhau i weithredu trwy gydol y gwaith, lle bynnag yr oedd hynny'n bosib, er mwyn osgoi colli incwm. Mae oedi o ran cyflenwi ffenestri gwydr wedi effeithio ar yr amserlen ac mae hynny, yn ei dro, wedi effeithio ar gynnydd elfennau eraill y prosiect, megis gosod lloriau a chladin ar yr estyniad. Mae sgôp y prosiect wedi'i ymestyn er mwyn rhoi sylw i bryderon newydd fod dŵr yn dod i mewn i'r adeilad, gan olygu fod angen mwy o amser i gwblhau'r prosiect, ac mae cymhlethdodau wedi codi wrth osod lifft i'r anabl hefyd.

Bydd y gwaith sy'n cael ei ariannu trwy raglen Llywodraeth y DU wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2026. Bydd mân waith tu mewn i'r Ganolfan a gwaith tirlunio tu allan yn cael eu cwblhau yn ddiweddarach gan ddefnyddio cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Ar ôl ei gwblhau, gallai'r prosiect gynnal 11 o swyddi cyfystyr ag amser llawn, yn ogystal â chynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Ganolfan Gelfyddydau bob blwyddyn, trwy gynnig rhaglen lawnach o ddigwyddiadau yn sgil cynyddu capasiti'r adeilad.

**6.5 Prosiectau'r Cyngor Sir**
**Gwella Blaenau Siopau - £533k**
**Contractwr - Quadriga (Manceinion)**

Fel rhan o'r rhaglen, bydd blaenau siopau chwe adeilad manwerthu'n cael eu huwchraddio erbyn diwedd Mawrth 2026 ac mae'r gwaith adnewyddu'n cael ei arwain gan gontractwr sy'n arbenigo mewn gwaith treftadaeth. Bydd busnesau yn cynnwys JM Butchers, Williams & Goodwin, Rose & Crown (Gleesons gynt), Picnics a'r Computer Geeks yn cael blaenau siop newydd fydd yn gweddu â'r Treflun Treftadaeth. Mae gwaith adnewyddu ar 9 Stryd Stanley a 2-4 Stryd y Farchnad wedi gwella blaenau siopau'r adeiladau hynny hefyd ac roedd y gwaith hwn yn allbwn cymwys ar gyfer y rhaglen.

**Prosiectau Trydydd Parti - £1.84M**
**Contractwyr - OBR Construction (Ynys Môn), Claytons (Gwynedd) a Quadriga (Manceinion)**

Bwriad y rhaglen yw gweithio gyda pherchnogion eiddo er mwyn dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Bydd 3 eiddo'n cael eu cwblhau o dan y rhaglen, sef 2 ac 8 Stryd Boston ac 1 Stryd Stanley. Ar ôl cwblhau gwaith adnewyddu ar yr eiddo bydd gofod manwerthu'n cael ei ddarparu ar y llawr gwaelod a llety preswyl 1 a 2 ystafell wely ar y lloriau uchaf, rhywbeth sy'n holl bwysig yn sgil yr argyfwng tai presennol.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd adnewyddu wyth eiddo, ni fu hyn yn bosib gan nad oedd perchnogion yr eiddo wedi llwyddo i ddod o hyd i arian cyfatebol, neu nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith o fewn y cyfnod cyllido. Mae'r allbynnau hyn wedi cael eu hawlio o dan rannau eraill o'r rhaglen.

**Tir Cyhoeddus ehangach; Sgwâr Swift, Cybi Sant a Neuadd y Farchnad - £540k**
**Contractwr - Grosvenor Construction (Conwy) a Calibre Metalwork (Manceinion)**

Adnewyddu Toiledau Cyhoeddus Sgwâr Swift ac adeiladu golygfan ar dŵr gogledd-ddwyrain Caer Rufeinig Caergybi. Bu'r toiledau cyhoeddus ar gau am gyfnod hir yn dilyn sawl achos o fandaleiddio, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu atebion posib yn cael eu hystyried er mwyn atal

difrod pellach ar ôl eu hail-agor. Mae tendrau'n cael eu gwahodd ar hyn o bryd ar gyfer y gwaith adnewyddu a bwriedir eu hailagor i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo'n bosib.

Gwella Mynwent Eglwys Cybi Sant - Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y safle ar hyn o bryd, gan roi sylw i'r dair fynedfa i'r Gaer a'r Eglwys yn y fynwent uchaf. Mae'r gwaith yn mynd i'r afael â gwendidau yn y bwa, pren sy'n pydru a chael gwared ar lystyfiant ymwthiol sy'n gwneud difrod i'r gofadail. Mae sylw'n cael ei roi i beryglon baglu hefyd, trwy ailosod cerrig llorio ar y llwybr cyhoeddus, ailosod cerrig rhydd ar y wal isel ac ailbeintio'r rheiliau. Mae mosaigau newydd yn cael eu gosod dan arweiniad artistiaid ar riniog y mynedfeydd, ac maent yn adlewyrchu themâu allweddol yn gysylltiedig â phrif leoliad treftadaeth Caergybi.

Stepiau, bwâu a rheiliau Neuadd y Farchnad - Mynd i'r afael â phroblemau mynediad yn gysylltiedig â'r stepiau ar ôl ailagor Neuadd y Farchnad. Er mwyn ymateb i sylwadau gan ddefnyddwyr, gosodwyd rheiliau llaw ar y stepiau o flaen yr adeilad, yn ogystal â goleuadau, a gosodwyd stripiau amlygu ac atal llithro ar ymylon y stepiau, gosodwyd dehongliadau treftadaeth newydd ac mae rheiliau'r naill adeilad pafiliwn a'r llall wedi cael eu hatgyweirio a'u paentio.

**6.6 Prosiectau Ychwanegol**

Fel y nodwyd, cafodd rhai prosiectau eu tynnu o'r Rhaglen am resymau amrywiol megis diffyg arian cyfatebol, y gallu i wireddu'r prosiect a chynnydd yn y costau. Cyflwynwyd ceisiadau i dynnu'r prosiectau o'r Rhaglen i'r Bwrdd Prosiect eu cymeradwyo cyn adrodd i Lywodraeth y DU. Er mwyn sicrhau fod yr holl gyllid yn cael ei ddefnyddio yng Nghaergybi ac i sicrhau fod yr allbynnau a'r canlyniadau'n cael eu cyflawni'n barhaus, cyflwynwyd nifer o brosiectau amgen i'r Bwrdd eu cymeradwyo. Unwaith eto, cafodd Llywodraeth y DU eu hysbysu am y cynlluniau ychwanegol, ac roeddent yn darparu nifer o ganlyniadau oedd wedi'u colli ar ôl tynnu prosiectau eraill o'r Rhaglen.

Mae'r prosiectau ychwanegol sy'n cael eu cyllido, ynghyd â'u hallbynnau a'u canlyniadau disgwyliedig, fel a ganlyn:

a. Plas Alltran £100,000 - Cydweithio gyda Gwasanaethau Tai CSYM i greu 5 uned tai cymdeithasol ac adnewyddu adeilad rhestredig oedd wedi adfeilio. Bu'r adeilad yn wag ers amser maith a bydd ei adnewyddu'n helpu i leihau pwysau'n gysylltiedig â'r argyfwng tai lleol.

b. 2-4 Stryd y Farchnad £30,000 - Fel y nodwyd yn 6.2, mae'r gwaith ar yr adeilad hwn bellach wedi'i gwblhau. Mae bwyty Eidalaidd, Feast Brothers, wedi agor yn yr adeilad. Mae adnewyddu'r adeilad hwn wedi helpu i gynnal 4 swydd cyfystyr ag amser llawn a denu busnesau bychan sefydledig i'r dref.

c. Amgueddfa Forwrol £100,000 - Dyrannwyd cyllid i gwblhau gwaith galluogi allanol fyddai'n caniatáu i estyniad gael ei adeiladu ar yr adeilad yn y dyfodol. Mae'r gwaith sy'n cael ei gyllido ar hyn o bryd yn cynnwys cloddio creigiau a chael gwared arnynt oddi ar y safle, yn ogystal ag uwchraddio gwasanaethau ar y safle. Bydd y gwaith holl bwysig hwn yn lleihau risgiau'r cynllun cyn belled â phosib a bydd yn haws a chyflymach ymestyn yr adeilad pan fydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar y grwpiau sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Dim - bydd ceisiadau gan, neu ar gyfer, grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu trin union yr un fath.

7.2. Effeithiau posib ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Cadarnhaol - mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i wella anfanteision economaidd-gymdeithasol a brofir yng Nghaergybi.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Cadarnhaol - trwy greu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal y gobaith yw y bydd mwy o siaradwyr Cymraeg yn elwa ac yn aros yn yr ardal. Mae'r Cyngor hefyd yn trafod gyda busnesau lleol a'u hannog i ddefnyddio arwyddion a bwydlenni dwyieithog.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Niwtral - lleihau costau gweithredu trwy osod paneli PV a/neu bympiau gwres o'r aer ar adeiladau. Bydd hefyd yn cynorthwyo i wella graddau tystysgrifau perfformiad ynni (EPC) mewn adeiladau newydd a phresennol.

## 8. Goblygiadau Ariannol

Niwtral - nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cyngor Sir gan fod costau datblygu'r bid a chostau staffio wedi cael eu talu a bydd y costau hyn yn cael eu talu o ffynonellau allanol.

## 9. Atodiadau

Atodiad A - Trosolwg Manwl o'r Rhaglen
Atodiad B- Lluniau Cynnydd

## 10. Awdur yr Adroddiad a phapurau cefndir

Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Tachwedd 2023
Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Mawrth 2024
Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Tachwedd 2024

| |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Sgriwtini Mehefin 2025<br><br>https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Busnes/Datblygu-economaidd/Rhaglen-a-ariennir-gan-lywodraeth-y-DU-yn-Nghaergybi/Croeso.aspx |

Tabl 1

Mae'r tabl isod yn nodi'r allbynnau y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a'r cyfanswm a gyflawnwyd hyd yma

| Dangosyddion Allbwn | Prosiectau | Allbynnau wrth gyflwyno | Cyfanswm yr allbynnau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni |
|---|---|---|---|
| **Cyflogaeth** | | | |
| Cyfanswm - Swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE) | Pob prosiect | 65 | 61 |
| Swyddi FTE | Ffryntiau Traeth | 4.5 | 6.5 |
| Swyddi FTE | Canolfan Chwarae Empire | 1.5 | 4.5 |
| Swyddi FTE | Llun CF | 30 | 28.5 |
| Swyddi FTE | Eglwys | 2.5 | 2.5 |
| Swyddi FTE | Ucheldre | 11 | 11 |
| Swyddi FTE | Trawsnewid Treflun | 17 | 8 |
| **Arwynebedd llawr / unedau a ddarperir** | | | |
| Gwella faint o ofod presennol y ganolfan gymunedol | Y Ganolfan Chwarae | 193 metr sgwâr | 193 metr sgwâr |
| Faint o ofod diwylliannol newydd a grëwyd | Ucheldre | 576.5 metr sgwâr | 576.5 metr sgwâr |
| Faint o ofod canolfan chwaraeon newydd wedi'i greu | Rhaglen Eiddo Gwag | 114 metr sgwâr | 114 metr sgwâr |
| Nifer yr unedau preswyl presennol wedi'u gwella | Trawsnewid Treflun | 4 | 4 |
| Nifer yr unedau preswyl newydd | Rhaglen Eiddo Gwag Treflun | 15 | 9 |
| Gwella nifer yr adeiladau adfeiliedig | Rhaglen Eiddo Gwag ,Trawsnewid Treflun ,Ffryntiau Traeth | 23 | 18 |
| Gwella nifer y cyfleusterau/cyfleusterau cyhoeddus presennol | Toiledau Swift Square, Canolfan Ymwelwyr Morglawdd | 2 | 2 |
| Nifer yr unedau masnachol ychwanegol | Rhaglen Eiddo Gwag Trawsnewid Treflun | 8 | 8 |
| Nifer yr adeiladau treftadaeth a adnewyddwyd/adferwyd | Eglwys Sant Cybi | 1 | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Faint o ofod diwylliannol wedi'i wella wedi'i gwblhau | Eglwys Sant Cybi | 500 metr sgwâr | 500 metr sgwâr |
| Faint o ddeyrnas cyhoeddus wedi gwella | Mynwent Eglwys Sant Cybi a Chanolfan Ymwelwyr Morglawdd | 1,750 metr sgwâr | I'w gadarnhau |

Tabl 2

Mae'r tabl isod yn nodi'r canlyniadau y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a'r cyfanswm a gyflawnwyd hyd yma

| **Dangosyddion Canlyniadau** | **Prosiect** | **Canlyniadau wrth gyflwyno** | **Canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymwelwyr/aelodau o'r gynulleidfa i leoliadau diwylliannol | Eglwys Sant Cybi | 9,200 (3,600 ychwanegol) | I'w fonitro / adolygu |
| Nifer yr ymwelwyr/aelodau o'r gynulleidfa i leoliadau diwylliannol | Ucheldre | 52,500 (17,000 ychwanegol) | I'w fonitro / adolygu |
| Nifer yr ymwelwyr â lleoliadau diwylliannol | Canolfan chwarae | 16,240 ychwanegol | I'w fonitro / adolygu |
| Nifer y digwyddiadau diwylliannol | Ucheldre | Ôl-ailddatblygu: cynnydd o 75 i 90 y flwyddyn | I'w fonitro / adolygu |
| Niferoedd cynulleidfa ar gyfer digwyddiadau diwylliannol | Ucheldre | Cynnydd hyd at 5,000 erbyn 2029/30 | I'w fonitro / adolygu |
| Gwariant Defnyddwyr | Ucheldre | Cynnydd hyd at £121,576 erbyn 2029/30 | I'w fonitro / adolygu |
| Mwy o gyflogaeth | Popeth | 65 | 61 |
| Codiad gwerth tir uniongyrchol | Rhaglen Eiddo Gwag | £1.2m | I'w fonitro / adolygu |
| Codiad gwerth tir ehangach | Rhaglen Eiddo Gwag | £4.6 miliwn | I'w fonitro / adolygu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adeiladau adfeiliedig wedi'u dychwelyd i ddefnydd | Rhaglen Eiddo Gwag (4 adeilad), Trawsnewid Treflun (8 adeilad – dim ond y rhai gwag ), Ffryntiau Traeth (4 adeilad). | 16 | 12 |
| Canfyddiad o le gan ymwelwyr | Popeth | Gwell canfyddiad o le gan ymwelwyr | I'w fonitro / adolygu |
| Newid yn y gyfradd ddiweithdra | Popeth | Gostyngiad o 10% yn erbyn y llinell sylfaen | I'w fonitro / adolygu |
| Newid yn yr Ymwelwyr | Popeth | hyd at 50% o newid yn erbyn y llinell sylfaen | I'w fonitro / adolygu |

Tabl 3

Dyddiadau cwblhau disgwyliedig

| Partner Cyflenwi | Prosiect | Wedi Gorffen | Rhagolwg Cwblhau Cyfredol |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref | Ciosgau | Wedi Gorffen | - |
| | Ymerodraeth | Wedi Gorffen | - |
| MonCF | 9 Stryd Stanley | Wedi Gorffen | - |
| | Adeilad Canolog | - | Chwefror 2026 |
| | Cysylltu â ni | - | Mehefin 2026 |
| Esgobaeth Bangor | Eglwys Sant Cybi ac Eglwys y Bedd | Wedi Gorffen | - |
| Canolfan Ucheldre | Estyniad Ucheldre | - | Mawrth 2026 |
| Cartref | Blaenau Siopau | - | Mawrth 2026 |
| | Prosiectau 3ydd Parti | - | Mawrth 2026 |
| | Teyrnas Gyhoeddus Sgwâr Swift a Mynwent Eglwys Sant Cybi | - | Mawrth 2026 |
| | Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Morglawdd a Llwybrau Treftadaeth | Wedi Gorffen | - |

Annex B – Lluniau Cynnydd /

Partner Cyflawni: Cyngor Tref Caergybi

Prosiect: Ail datblygu Kiosks Newry

Cyn gwaith



Ar ol gwaith




Partner Cyflawni: Cyngor Tref Caergybi

Prosiect: ail datblygu’r lle chwarae a sinema

Ar ol gwaith





Partner Cyflawni: Ucheldre

Cyn gwaith



Yn ystod gwaith



Yn ystod y gwaith estyniad mewnol



Wedi cyflawni – Y Galeri newydd



Partner Cyflawni: Esgobaeth Bangor

Prosiect: Adnewyddu Eglwys St Cybi a Eglwys Y Bedd

Yn gynt a wedi cyflawni













Partner Cyflawni: Mon CF

Prosiect: HSBC





Prosiect: Adeilad Central





Prosiect: 9 Stanley Street a 2-4 Market Street







Partner Cyflawni: Treftadaeth CSYM

Prosiect: Trawsnewid Treflun









Prosiect: Talcen Siopau
























Prosiect: Iard yr Eglwys





Prosiect: Amgueddfa Morwrol





22/11/2024

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **17 Mawrth, 2026** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Dylan Rees** |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Amherthnasol | |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Elin Allsopp | Swyddog Sgriwtini |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Amherthnasol



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati.

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| Amherthnasol |

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

| |
|---|
| Amherthnasol |

**8. Goblygiadau ariannol**

| |
|---|
| Amherthnasol |

**9. Atodiadau**

| |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2026/27 |

**10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir**

| |
|---|
| Elin Allsopp, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2026 → EBRILL, 2027
**[Fersiwn dyddiedig 09/03/26]**

DRAFT

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna [Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini] wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol.  Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.  Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Mai, 2026 (19/05/2026)** | **Mai, 2026 (19/05/2026)** |
| Ethol Cadeirydd: 2026/27 | Ethol Cadeirydd: 2026/27 |
| Ethol Cadeirydd: 2026/27 | Ethol Cadeirydd: 2026/27 |
| | |
| **Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4** | **Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Education / Welsh Language** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4 2025/26 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2024/25<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25 |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol:  2026/27 | |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)** |
| | Cynllun Strategol Taclo Tlodi |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1** | **Medi, 2026 (15/09/2026)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

DRAFT

| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** |
|---|---|
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Hydref, 2026 (14/10/2026)** | **Hydref, 2026 (13/10/2026)** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26 |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26 | Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| | **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2024/25<br>• Adroddiad Cynydd Ch1: 2025/26 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Tachwedd, 2026 (11/11/2026) – Ch2** | **Tachwedd, 2026 (10/11/2026) -Addysg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27 | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26 | Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd |
| Diogelu Corfforaethol | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Ionawr, 2027 (19/01/2027) – 2027/28 (bore)** | **Ionawr, 2027 (20/01/2027)** |
| 2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn:<br>• Adroddiad Blynyddol 2025/26<br>• Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd | **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Chwefror, 2027 (17/02/2027) – 2027/28 Cyllideb** | **Chwefror, 2027 (16/02/2027) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf | Gwasanaeth ADY a Chynhwysiant – Adroddiad Cynnydd |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau | |
| Cynllun Strategol Rheoli man-ddaliadau 2026-2031 -adroddiad cynnydd | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3** | **Mawrth, 2027 (09/03/2027)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27 | Grŵp Llandrillo Menai |
| Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031 | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26 | |
| | **Eitem er gwybodaeth**: Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 |
| | |
| **Ebrill, 2027- Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Ebrill, 2027 - Dim cyfarfod wedi’i raglennu** |
| | |

DRAFT

This page is intentionally left blank

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Isle of Anglesey County Council

## Prawf budd y cyhoedd | Public interest test

Teitl yr adroddiad: Mewnoli'r Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ar Ynys Môn
Report title: Internalising the ALN and Inclusion Service on Anglesey

Paragraff(au) / Paragraph(s): [**12, 13,** ~~14,~~ **15,** ~~16, 17, 18, 18A, 18B, 18C~~]
Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972
Schedule 12A Local Government Act 1972

Paragraff(au) 12, 13, and 15 o Rheolau Gweithdrefn Hawl i Wybodaeth yn berthnasol ac wedi ei hatgynhyrchu isod

Paragraph(s): 12, 13, and 15 of the Access to Information Procedure Rules are relevant and reproduced below

| | |
|---|---|
| 12. Gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn penodol | 12. Information relating to a particular individual |
| 13. Gwybodaeth sy'n debygol o ddangos pwy yw'r unigolyn | 13. Information which is likely to reveal the identity of an individual |
| 15. Gwybodaeth ynghylch unrhyw ymgynghori neu drafod, neu'r bwriad i ymgynghori neu drafod, yng nghyswllt unrhyw fater cyflogaeth a gyfyd rhwng yr awdurdod neu Weinidog y Goron a gweithwyr yr awdurdod neu rai sy'n dal swyddi dan yr awdurdod. | 15. Information relating to any consultations or negotiations, or contemplated consultations or negotiations, in connection with any labour relations matter arising between the authority or a Minister of the Crown and employees of, or office holders under, the authority |

Y prawf / The test

| Y budd cyhoeddus o ddatgelu yw:<br>There is a public interest in disclosure in:<br><br>bod yr argymhelliad arfaethedig yn destun pryder i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac, yn fwy penodol, teuluoedd y plant a'r bobl ifanc a all gael eu heffeithio gan y penderfyniad i fewnoli'r Gwasanaeth hwn.<br><br>that the proposed recommendation may be of legitimate concern to the public generally, and more specifically, to the families of those children and young people who may be affected by the decision to internalise this Service. | Y budd cyhoeddus o beidio datgelu yw:<br>The public interest in not disclosing is:<br><br>bod modd adnabod y gweithwyr a fydd yn cael eu heffeithio drwy'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad. Mae'r Adroddiad hefyd yn crybwyll y prosesau cyflogaeth a fydd yn effeithio ar yr unigolion dan sylw.<br><br>Mae gan y gweithwyr a fydd yn cael eu heffeithio hawl statudol a chytundebol i ddisgwyl na fydd eu hunaniaeth/materion yn gysylltiedig â'u cyflogaeth yn cael ei wneud yn gyhoeddus.<br><br>Yn sgil y disgwyliad hwn, byddai ganddynt hawl i gymryd camau yn erbyn y Cyngor am ddatgelu gwybodaeth heb awdurdod.<br><br>that affected employees will be identified/identifiable by the information contained in the Report. The Report also alludes to employment processes which will affect identified/identifiable individuals.<br><br>The employees affected have a statutory and contractual right to expect that their identity/matters relating to their employment shall not be made public.<br><br>From this expectation, arises the right to take action against the Council for unauthorised disclosure. |
|---|---|

## Argymhelliad
Mae budd y cyhoedd wrth gadw eithriad yn fwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

## Recommendation
The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 15 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 15 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank